

Ardaloedd Cadwraeth: Canllaw hanfodol i'w gwella

I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â Thîm Treftadaeth Adeiledig Cyngor Sir Caerfyrddin:

BHConsultations@sirgar.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn a'r holl hawliau eiddo deallusol ynddo ac sy'n deillio ohono yn eiddo i Donald Insall Associates neu'r cleient, neu o dan drwydded iddo. Ni chaniateir atgynhyrchu'r adroddiad hwn yn gyfan nac unrhyw ran ohono, nac unrhyw luniad, cynllun, dogfen arall nac unrhyw wybodaeth a gynhwysir ynddo mewn unrhyw ffurf heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Donald Insall Associates neu'r cleient fel y bo'n briodol. Ni chaniateir cyhoeddi nac atgynhyrchu'r holl ddeunydd y mae'r hawliau eiddo deallusol wedi'u trwyddedu i DIA neu'r cleient ynddo a bod unrhyw hawliau o'r fath yn perthyn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf, a dylai unrhyw gais am ganiatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath i'w gyhoeddi neu ei atgynhyrchu gael ei wneud yn uniongyrchol i berchennog yr hawliau eiddo deallusol sydd ynddynt.

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

CANOLFAN TYWI
TYWI CENTRE

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants

Cynnwys

Y Penawdau **4**

Cyflwyniad **5**

Defnyddio'r canllaw hwn 5

RHAN 1 – Treftadaeth Adeiledig Sir Gaerfyrddin **6**

1.1 Beth yw Ardal Gadwraeth 7

1.2 Datblygu mewn Ardal Gadwraeth 10

1.3 Buddsoddi yn ein treftadaeth adeiledig 11

1.4 Egwyddorion Dylunio 13

Rhan 2 – Canllaw Cam wrth Gam **17**

2.1 Cyfarwyddiadau manwl ac enghreifftiau 19

2.1.1 Arwyddocâd 19

2.1.2 Effaith 21

2.1.3 Asesiad o'r effaith 23

2.1.4 Lliniaru 23

2.1.5 Gwella 23

2.1.6 Cydbwyso niwed 23

2.1.7 Rhagesiampl 24

2.2 Cyd-destun a dylunio lleol 25

2.2.1 Golygfeydd o fewn ardal, tuag ati ac ohoni 25

2.2.2 Lleoliad 27

2.2.3 Deunyddiau adeiladu 28

2.2.4 Uchder adeiladau 29

2.2.5 Perthynas â lleiniau 30

2.2.6 Manylion pensaernïol 31

2.2.7 Llecynnau cyhoeddus 32

2.2.8 Deunyddiau a thriniaethau ffiniau 33

Rhan 3 - Materion **34**

Atodiadau **56**

Dolenni defnyddiol **56**

Rhestr termau **57**

Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisïau a Chanllawiau Cysylltiedig **59**

Y Penawdau

Mae'r ddogfen ganllaw hon yn nodi ystyriaethau a ddylai lywio unrhyw gynigion ar gyfer newid o fewn Ardaloedd Cadwraeth Sir Gaerfyrddin. Dyma restr o'r elfennau allweddol sy'n sylfaenol i'r canllaw hwn:

1. Mae Ardaloedd Cadwraeth yn ardaloedd penodol yn ein cymunedau gwledig a threfol, a ddewiswyd oherwydd eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

   Gallai **diddordeb pensaernïol** gynnwys enghraifft dda o fath arbennig o anheddiad neu grŵp o adeiladau o arddull ranbarthol neu leol nodedig neu o ansawdd pensaernïol uchel.

   Mae **diddordeb hanesyddol** yn gysylltiedig â datblygiad hanesyddol lle, cyfnod penodol neu newidiadau cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol. Gallai enghreifftiau gynnwys tai diwydiannol cynnar ac ardaloedd lle mae tystiolaeth archaeolegol, bensaernïol neu dopograffaidd o'r tarddiad a'r prif gyfnodau datblygu wedi goroesi'n arbennig o dda.

2. Yn y system gynllunio mae ceisiadau ar gyfer newid o fewn Ardal Gadwraeth yn cael eu hasesu i ddeall yr **effaith y gallai datblygiad ei chael ar bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol ardal**.

3. Mae adeiladau gwarchodedig ac Ardaloedd Cadwraeth Sir Gaerfyrddin yn rhan o stori a hunaniaeth ein sir a'r bobl sy'n byw ynddi ond maen nhw hefyd yn **bwysig ar gyfer adfywiad economaidd a chymdeithasol**. Mae datblygiad sy'n hyrwyddo gwerthoedd cadwraeth ardal yn fwy tebygol o fod yn gynaliadwy yn economaidd.

4. Rhaid i bob newid, ychwanegiad at adeilad neu adeilad newydd mewn ardal gadwraeth sicrhau gwelliant sylweddol i ansawdd gweledol yr ardal honno. Rhaid iddo o leiaf **gadw, ond yn ddelfrydol, wella'r gwerthoedd hanesyddol neu bensaernïol** y dewiswyd yr Ardal Gadwraeth honno ar eu cyfer.

5. Mae'r gofyniad bod datblygiad mewn Ardal Gadwraeth yn cadw neu'n gwella'r ardal honno wedi'i ymgorffori mewn Deddfwriaeth Sylfaenol yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Y ddeddfwriaeth hon sy'n llywio Swyddogion Treftadaeth Adeiledig yr Awdurdod Lleol wrth iddynt wneud eu penderfyniadau proffesiynol ynghylch a yw newid arfaethedig yn **cadw neu'n gwella Ardal Gadwraeth ai peidio**.

6. Rhaid i gynigion ar gyfer unrhyw newidiadau mewn Ardal Gadwraeth o leiaf ystyried y canlynol: **golygfeydd** o fewn ardal ac ohoni; **lleoliad** adeilad mewn perthynas ag adeiladau eraill yn yr ardal; **deunyddiau** adeiladu**, uchder** adeiladau; perthynas â **lleiniau**; **manylion** pensaernïol; **llecynnau cyhoeddus**; **deunyddiau ffiniau.** Rhoddir rhagor o fanylion yn y ddogfen hon.

7. Gall **Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth** roi rhagor o fanylion am werthoedd ac ystyriaethau arbennig Ardaloedd Cadwraeth unigol.

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn darparu gwybodaeth i gynorthwyo o ran rheoli newid yn amgylchedd hanesyddol Sir Gaerfyrddin. Mae'n nodi disgwyliadau'r Cyngor Sir ar gyfer datblygu a'i nod yw cynorthwyo i weithredu cynlluniau cadarnhaol a pharhaol ar gyfer datblygu trefi a chymunedau gwledig y sir mewn modd cynaliadwy.

Mae'n bennaf ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â chomisiynu a gwneud gwaith datblygu, boed hynny o fewn y Cyngor neu'n allanol, ond bwriedir iddo hefyd fod o ddefnydd i grwpiau cymunedol lleol, cyrff amwynder, partïon eraill â diddordeb a'r cyhoedd yn ehangach. Bydd aelodau a swyddogion y Cyngor yn defnyddio'r egwyddorion dylunio hyn wrth asesu cynigion datblygu.

Defnyddio'r canllaw hwn

Mae 3 rhan i'r ddogfen:

Rhan 1: Mae'r rhan gyntaf yn nodi cefndir a chyd-destun y polisi sy'n sail i gyfres o egwyddorion datblygu.

Rhan 2: Mae'r ail ran yn rhoi arweiniad ymarferol i gefnogi'r egwyddorion hyn, gyda chanllaw cam wrth gam ar gyfer asesu cynigion, ochr yn ochr ag enghreifftiau ac esboniadau manwl o dermau allweddol.

Rhan 3: Mae'r rhan olaf yn nodi materion cyffredin a chynigion rheoli i helpu i nodi ble a sut mae niwed yn digwydd ac i atal dirywiad pellach.

Mae'r Atodiad i'r cynllun yn darparu dolenni i ganllawiau a pholisïau pellach a allai fod o gymorth.

RHAN 1 - Treftadaeth Adeiledig Sir Gaerfyrddin

Gellir mesur pwysigrwydd cydnabyddedig amgylchedd adeiledig hanesyddol Sir Gaerfyrddin a'i werth i'r Cyngor Sir a'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yma yn ôl y ffaith bod **27 o Ardaloedd Cadwraeth dynodedig** yn y Sir. Mae hefyd yn cynnwys etifeddiaeth bensaernïol a hanesyddol arbennig iawn, ac mae dros **1800 o adeiladau a strwythurau sy'n rhestredig** oherwydd eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol a **370 o Henebion Cofrestredig** sydd o arwyddocâd archaeolegol cenedlaethol.

Pan fydd y gofyniad am ddatblygiad yn digwydd, dylid ystyried hwn yn gyfle cyffrous i gefnogi a gwella'r diddordeb hwn gan atgyfnerthu nodweddion lleol unigryw a chreu mannau penodol o ansawdd.

Ochr yn ochr â'i threftadaeth adeiledig, mae gan Sir Gaerfyrddin **81 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, 2 Ardal Gwarchodaeth Arbennig** a **7 Ardal Cadwraeth Arbennig**, sy'n gefndir i'r amgylcheddau trefol sydd rhyngddynt. Felly, dylid hefyd defnyddio'r cyngor yn y ddogfen hon
i lywio cynigion ar gyfer ardaloedd sydd gerllaw lleoedd, adeiladau a strwythurau dynodedig.

Er bod y ddogfen hon yn cyfeirio'n bennaf at Ardaloedd Cadwraeth dynodedig, cydnabyddir y bydd ardaloedd eraill o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol y gellir eu hystyried yn deilwng o'u dynodi ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu fel y cyfryw eto. Felly, dylid cyfeirio at y canllawiau a geir yn y ddogfen hon wrth edrych ar gynigion o fewn unrhyw gyd-destun hanesyddol presennol. Gellir gofyn am ragor o arweiniad gan swyddogion Treftadaeth Adeiledig y Cyngor Sir ynghylch ardaloedd a allai gael eu hystyried i'w dynodi.

Castell Cydweli

1.1 Beth yw Ardal Gadwraeth

Ardaloedd Cadwraeth yw 'ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y dymunir cadw neu wella eu cymeriad a'u golwg'.

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn rhannau penodol o'r amgylchedd hanesyddol a ddynodwyd gan Awdurdodau Cynllunio Lleol oherwydd eu bod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Gallai **diddordeb pensaernïol** gynnwys enghraifft dda o fath arbennig o anheddiad, cynllunio trefol neu grŵp o adeiladau o arddull ranbarthol neu leol nodedig neu o ansawdd pensaernïol uchel. Mae **diddordeb hanesyddol** yn gysylltiedig ag esblygiad hanesyddol lle, cyfnod penodol neu symudiadau cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol megis tai diwydiannol cynnar ac ardaloedd lle mae tystiolaeth archaeolegol, pensaernïol neu dopograffig o darddiad a phrif gyfnodau datblygu wedi goroesi'n arbennig o dda.

Mae dal modd adnabod yr hen farchnad ganoloesol yng Nghaerfyrddin yn ei ffurf hanesyddol

Parc Penllwyn yn Ardal Gadwraeth Teras Picton yng Nghaerfyrddin. Datblygiad o ansawdd uchel ac enghraifft o ddatblygu dosbarthiadau cymdeithasol

Plas Llanelly, adeilad rhestredig Gradd 1

Prif strydoedd a strydoedd eilaidd yn eu safle, eu ffurf a'u defnydd gwreiddiol yn Llandeilo

Enghreifftiau o Ddiddordeb Hanesyddol

Tai diwydiannol yn Ardal Gadwraeth Heol Picton

Afon Gwendraeth yng Nghydweli sy'n gwahanu'r aneddiadau 'Castell' a 'Thref'

Rhan o wal derfyn hanesyddol ar safle hen gapel yn Llandeilo

Safle heneb gwrthgloddiau'r rhyfel cartref yn Ardal Gadwraeth Heol Awst yng Nghaerfyrddin

1.2 Datblygu mewn Ardal Gadwraeth

Yn y system gynllunio mae ceisiadau am newid o fewn Ardal Gadwraeth yn cael eu hasesu i ddeall yr effaith y gallai'r datblygiad ei chael ar bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol ardal. Hefyd mae camau rheoleiddio ychwanegol a roddir ar rai mathau penodol o waith o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Mae hyn yn cynnwys dileu rhai Hawliau Datblygu a Ganiateir a chaniatâd ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer gwaith dymchwel, gwaith i goed a hysbysebion mewn Ardaloedd Cadwraeth. Mewn Ardal Gadwraeth ymgynghorir â'r Swyddog Treftadaeth Adeiledig ynghylch ceisiadau a gyfer datblygu a newid. Ymhelaethir ar y telerau hyn yn Rhan 3 y cynllun hwn

Datblygiad ar ddiwedd yr 20fed ganrif sy'n ffinio â'r Clos Mawr yng Nghaerfyrddin

1.3 Buddsoddi yn ein treftadaeth adeiledig

"Mae gan bob anheddiad ar draws y Deyrnas Unedig, boed yn dref farchnad ganoloesol neu'n ganol dinas ar ôl y rhyfel, hanes unigryw a nodedig y gellir ei harneisio i helpu i sicrhau dyfodol llewyrchus. Mae'r rhai sydd â'r pŵer i lunio'r lleoedd lle rydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw, yn cydnabod fwyfwy mai treftadaeth yw'r allwedd sy'n arwain at lwyddiant. Mae'n creu gwerth ac yn cynnal bywiogrwydd economaidd, gan gefnogi swyddi a denu buddsoddiad. Mae treftadaeth yn darparu cynfas ar gyfer gweithgarwch diwylliannol ffyniannus ac mae'n helpu i feithrin cymunedau cysylltiedig ac iach. Dyma'r ffactor hanfodol sy'n sail i leoedd bywiog a llwyddiannus'.

Historic England, Creu Lleoedd ac Adfywio

Mae ein treftadaeth adeiledig yn adnodd enfawr sy'n helpu i lunio sut mae ein trefi a'n pentrefi yn edrych ac yn teimlo. Mae rhoi bywyd newydd i'r asedau hyn wedi bod yn un o gonglfeini **adfywiad economaidd a chymdeithasol ein trefi**. Mae integreiddio treftadaeth mewn prosiectau adfywio wedi chwarae rhan gynyddol bwysig a llwyddiannus mewn cynlluniau adfywio, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer cadwraeth a datblygu er mwyn cydweithio i drawsnewid yr amgylchedd adeiledig.

Hyd yn oed pan fyddant mewn cyflwr gwael neu'n wag, mae ein **hadeiladau hanesyddol yn parhau i fod yn 'ased'** gyda'r gallu i gyfoethogi ein profiad o'n hamgylchedd trwy eu hadeiladwaith neu eu cymdeithasau hanesyddol neu gymunedol. Mae asedau treftadaeth hefyd yn elfen allweddol o **ddatblygu cynaliadwy**.

Mae treftadaeth yn cael ei gwerthfawrogi gan bobl a chymunedau, ac mae'n ffurfio rhan o **hunaniaeth lle**, neu weithiau'n gyfan. Ond weithiau gellir eu hystyried yn rhwystr o ran adfywio, gan eu bod yn cael eu hystyried yn rhy gostus, yn anhyfyw, yn brin o effeithlonrwydd ac yn methu â gallu bodloni dymuniadau meddianwyr neu ddatblygwyr.

Hen ficerdy sy'n ffinio â Pharc Caerfyrddin ac sydd bellach yn cael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol

Hen farchnad nwyddau, sy'n adeilad rhestredig Gradd II, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd yn Llandeilo i ddarparu lle cyflogaeth newydd

Yr allwedd yw dod o hyd i'r **defnydd hyfyw gorau posibl** ar gyfer ased sy'n gynaliadwy yn economaidd, a hynny heb effeithio ar ei werth cadwraethol. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod cost o ran peidio â cheisio integreiddio adeiladau treftadaeth yn llwyddiannus mewn cynlluniau adfywio. Gall ased treftadaeth nad yw'n cael digon o ofal a'i gynnal a chadw mewn modd digonol ddirywio'n gyflym, lleihau'r ansawdd amgylcheddol cyffredinol, a gwrthweithio mentrau eraill sydd ar waith.

Gall buddsoddi yn ein treftadaeth adeiledig ddod â manteision cadarnhaol, gan gynnwys **manteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a phersonol.** Mae nifer o fanteision a gorgyffwrdd y gall buddsoddi, ailddefnyddio, addasu a dylunio cyd-destunol ystyriol eu cynnig, gan gynnwys: creu ymdeimlad o falchder bro; gwneud i leoedd deimlo'n fwy diogel gan arwain at leihau troseddau; cynyddu nifer yr ymwelwyr; annog blaenfuddsoddi.

Gall cynigion dylunio gynnwys newid defnydd, datblygiad newydd, atgyweirio a newid priffyrdd a llecynnau cyhoeddus, cynlluniau tirlunio caled a meddal, ailddefnyddio arwynebedd llawr gwag a newid adeiladau presennol. Ar gyfer pob un o'r rhain, mae cyfle cyffrous i gefnogi ac i wella'r manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol **gan atgyfnerthu nodweddion lleol unigryw a chreu mannau gwahanol o ansawdd**. Fodd bynnag, er mwyn manteisio ar y buddion hyn, mae'n hanfodol bod yr egwyddorion dylunio a nodir yn y ddogfen hon yn cael eu dilyn.

1.4 Egwyddorion Dylunio

'Dylai unrhyw gynigion o fewn Ardal Gadwraeth, neu sy'n effeithio arni, warchod neu wella ei harwyddocâd'

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu dynodi oherwydd eu pwysigrwydd hanesyddol, ac mae cadw neu wella'r arwyddocâd hwn yn ofyniad sylfaenol ar gyfer unrhyw gynigion a ddaw i law'r Cyngor. **Gall arwyddocâd fod ar ffurf elfennau diriaethol ac anniriaethol**(gweler tudalen 15 am enghreifftiau). Mae angen deall **lle mae'r arwyddocâd a'r effaith gyfatebol** y mae cynigion yn ei chael ar hyn er mwyn sicrhau bod yr amcan craidd hwn yn cael ei gyflawni.

Datblygiad cyfoes yng Nghastellnewydd Emlyn sy'n amharu ar y golygfeydd drwy'r Ardal Gadwraeth

'Dylai pob cynnig barchu cymeriad lleol a nodweddion unigryw yr ardal dan ystyriaeth'

Mae'n **bwysig sicrhau bod pob newid neu ychwanegiad yn gwneud cyfraniad sylweddol fwy at ansawdd gweledol yr ardal na'r hyn y mae'n ei ddisodli**. Yn y modd hwn, ystyrir bod gan bob safle y potensial i gynyddu'r cymeriad lleol. Mae gan bob tref yn Sir Gaerfyrddin **nodweddion unigryw sylfaenol a lleol** sy'n eu gwahaniaethu oddi wrth rannau eraill o'r sir. Mae angen i'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu cynigion ddeall a mynd i'r afael â'r cymeriad hwn yn drylwyr os mai ffurfio rhan naturiol o'r trefluniau presennol yw eu gwaith.

Enghraifft o ddatblygiad ansensitif o ddiwedd yr 20fed ganrif wrth ymyl llyfrgell ganolog Llanelli, sef adeilad rhestredig Gradd II

‘Lle bo'n bosibl, dylai cynigion gyfrannu'n weithredol at wneud lleoedd yn fwy hygyrch ac yn gynaliadwy yn amgylcheddol’

Nid yw datblygu cynigion sydd â bywyd economaidd tymor byrrach na'r rhai y maent yn eu disodli yn gydnaws ag amcanion cynaliadwyedd. Felly, o ganlyniad, os **oes disgwyl i gynigion fod yn rhai parhaol, bydd ansawdd dylunio cynhenid, hindreuliad a manylebau o ansawdd uchel, adeiladau sy'n ynni-effeithlon a deunyddiau gwydn** yn dod yn ofyniad cynyddol bwysig. Mae angen ystyried **ailddefnyddio** adeiladau hanesyddol presennol cyn ystyried **dymchwel** fel dewis arall derbyniol. Mae'r Cyngor Sir hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cyflawni adeiladau a lleoedd sy'n groesawgar ac yn fuddiol i bob grŵp o ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys pobl ag anableddau, a bydd yn ceisio **dyluniadau cynhwysol**.

Gall fod gan ddeunyddiau palmant o ansawdd hyd oes llawer hirach na dewisiadau eraill gan greu llecyn cyhoeddus deniadol ac o ansawdd uchel

‘Dylai cynigion ystyried eu heffaith ar leoliad ehangach lle’

Gall cymeriad ac **arwyddocâd lle berthyn cymaint i'w leoliad ag i'r ardal ddynodedig** ei hun. Bydd amddiffyniad parhaus yn cael ei sicrhau drwy waith asesu trylwyr o unrhyw effaith negyddol bosibl cynigion datblygu newydd, gan gynnwys adeiladau mwy o faint sydd gryn bellter i ffwrdd. Bydd hon yn ystyriaeth berthnasol bwysig pan fydd y Cyngor Sir yn penderfynu ar geisiadau o'r fath.

Oherwydd topograffi llawer o'r sir, mae golygfeydd panoramig pellach yn gyffredin a gall datblygiad sydd wedi'i leoli a'i ddylunio'n wael amharu arnynt

'Dylid ystyried datblygiad newydd sydd â dyluniad sy'n fwy na dim ond derbyniol'

Mae'r Cyngor Sir yn benderfynol o wella ansawdd cyffredinol Ardaloedd Cadwraeth, yn ogystal â'r ardaloedd hynny a allai gael eu dynodi. Felly, bydd datblygiad newydd sydd wedi'i ddylunio'n dda yn chwarae rhan hanfodol. **Mae dylunio da nid yn unig yn ymwneud â'r dyluniad ei hun ond mae hefyd yn ymwneud â bod yn gydnaws â'i amgylchoedd**. Y cyntaf yw a yw'r dyluniad ei hun yn wael, yr ail yw a fyddai'n niweidiol ar safle penodol, hyd yn oed os nad yw'r dyluniad ei hun yn wael. Rhaid i gynigion geisio deall y lleoliad y maent yn cynllunio ynddo, **gan ymateb i'w cyd-destun uniongyrchol mewn modd amlwg.**

Datblygiad cyfoes yn Ardal Gadwraeth Heol Picton a ystyrir o bosib fod ganddo ddyluniad da ond nad yw'n gydnaws â'r strydlun

Elfennau anniriaethol - Gall trefn ffyrdd blaenorol, hyd yn oed os cânt eu newid o ran deunyddiau a dwysedd y datblygiad, gadw cysylltiad â phreswyliad y gorffennol

Elfennau anniriaethol - Mae defnydd adeiladau fel eglwysi a mynwentydd eglwysi yn cadw cysylltiadau â'r bobl a'r digwyddiadau o'r gorffennol

Elfennau diriaethol - Mae adfeilion, henebion ac olion archaeolegol yn gweithredu fel cysylltiadau ffisegol â'r gorffennol

Elfennau diriaethol - Mae cadw deunyddiau a dyluniadau gwreiddiol fel gwaith coed, gorchuddion toeon a ffiniau hanesyddol yn elfennau hanesyddol y gellir eu hadnabod

Rhan 2 - Canllaw Cam wrth Gam

Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw arbennig i briodoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, ac felly byddant yn craffu ar geisiadau cynllunio'n agos gan gadw'r amcanion hyn mewn golwg.

Mae'r canllaw cam wrth gam isod yn nodi'r prosesau y dylech eu dilyn wrth ddatblygu cynnig o fewn Ardal Gadwraeth. Mae Adran 2.1 yn darparu dadansoddiad manylach o rai o'r termau a nodir isod, yn ogystal â darparu enghreifftiau.

CAM 1: Adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth

↓

CAM 2: Deall y cyfraniad at yr ardal gadwraeth

↓

CAM 3: Deall effaith y cynnig ar yr arwyddocâd hwnnw

↓

CAM 4: Rhowch ystyriaeth i sut i osgoi, lleihau a lliniaru effeithiau niweidiol

↓

CAM 5: Chwiliwch am gyfleoedd i ddatgelu neu i wella arwyddocâd mewn ffordd well

↓

CAM 6: Rhowch ystyriaeth i'r cyfiawnhad dros unrhyw effeithiau niweidiol

CAM 1: Adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth

Mae'r cynigion datblygu sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol yn llawer mwy tebygol o gael y caniatâd angenrheidiol a chreu lleoedd llwyddiannus os ydynt wedi'u cynllunio gyda'r wybodaeth am ddiddordeb arbennig (arwyddocâd) yr ardal gadwraeth, a dealltwriaeth ohono, y gallant effeithio arno. Y cam cyntaf yw **deall arwyddocâd yr ardal gadwraeth ac, os yw'n berthnasol, gyfraniad ei lleoliad at ei harwyddocâd.** Arfarniad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer rheoli cadarnhaol a'r man cychwyn i unrhyw un sy'n ystyried newid o fewn ardal gadwraeth. Mae'n rhoi darlun manwl o'r hyn sy'n gwneud ardal yn arbennig a gellir ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae'r arfarniad yn cynnig dealltwriaeth gyffredin o gymeriad a phwysigrwydd, ac yn amlygu problemau a photensial.
Mae hefyd yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd cyson a gall gefnogi ceisiadau am gyllid ar gyfer gwelliannau. Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddefnyddio'r ddogfen hon i ddeall beth sy'n gwneud yr ardal gadwraeth yn arbennig ynghyd â'i chymeriad a'i golwg. Lle nad yw'r dogfennau hyn yn bodoli, gall y tîm Treftadaeth Adeiledig roi cymorth ac arweiniad i ddeall arwyddocâd ardal benodol.

CAM 2: Ceisiwch ddeall pa gyfraniad y mae'r safle/adeilad dan sylw yn ei wneud i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth ac i'w diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig (arwyddocâd cyffredinol).

Lle mae diddordeb archaeolegol, ystyriwch a yw natur arwyddocâd yr asedau yr effeithir arnynt yn gofyn am asesiad arbenigol i gael y lefel angenrheidiol o ddealltwriaeth. Ystyriwch a oes angen asesiad desg arno i ddeall yr arwyddocâd. Os felly, ac nad oes un wedi'i ddarparu gan yr ymgeisydd, mae defnyddio arbenigwyr i ddarparu'r wybodaeth arbenigol hon yn arfer da.

CAM 3: Deall effaith y cynnig ar yr arwyddocâd hwnnw

Gall effaith fod yn **effaith ffisegol** ar adeiladwaith treftadaeth, neu'n **effaith weledol** ar ei lleoliad. **Gall hyn fod yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral**. Gellir gweld enghreifftiau o bob un o'r rhain yn yr adran ganlynol.

CAM 4: Rhowch ystyriaeth i sut i osgoi, lleihau a lliniaru effeithiau niweidiol

Lle nodwyd effeithiau negyddol bydd gofyn ichi ddangos sut rydych wedi ceisio lleihau'r **niwed hwn trwy ddylunio** er mwyn cael yr opsiwn lleiaf niweidiol.

CAM 5: Chwiliwch am gyfleoedd i ddatgelu neu i wella arwyddocâd, cymeriad a golwg mewn ffordd well

Dylai pob cynnig geisio gwella'r ardal gyfagos. Gallai hyn fod drwy wrthdroi niwed sydd eisoes wedi'i achosi, neu drwy ddylunio cynigion newydd sy'n adlewyrchu cymeriad lleol yr ardal neu'n helpu pobl i ddeall yn well pam ei bod yn arbennig, er enghraifft, trwy ddeunydd esboniadol.

CAM 6: Ystyriwch y cyfiawnhad dros unrhyw effeithiau niweidiol o ran yr amcan datblygu cynaliadwy o gadw arwyddocâd a'r angen am newid.

Os bydd effeithiau negyddol yn parhau ar ôl lliniaru a bod yr holl gyfleoedd i wella wedi'u hystyried, dylid archwilio ystyriaethau ehangach a allai gydbwyso'r niwed hwn, er enghraifft, **buddion economaidd neu gyhoeddus**.

2.1 Cyfarwyddiadau manwl ac enghreifftiau

2.1.1 Arwyddocâd

Beth ydyw?

Arwyddocâd yw'r term cyfunol am **yr holl werthoedd treftadaeth diwylliannol a naturiol** sydd ynghlwm wrth le, boed yn adeilad, yn strwythur, yn safle archaeolegol, neu'n ardal hanesyddol fwy o faint fel tref gyfan neu dirwedd.

Gall lleoliad lle neu adeilad o fewn lle fod yn rhan o'r arwyddocâd hwnnw ac mae'n ymwneud â'r ardal lle mae gan le hanes yn y gorffennol a'r presennol. Nid yw lleoliad yn cael ei fesur yn ôl radiws penodol ond mae'n cael ei arwain gan y graddau y gallai newid o fewn lleoliad effeithio ar arwyddocâd y lle.

Sut mae'n cael ei fesur?

Mae CADW yn mesur 4 gwerth a all gyfrannu at yr arwyddocâd hwn:

Olion ffisegol ac unrhyw adeiladwaith sydd wedi goroesi, neu **werth tystiolaethol**, gan gynnwys cofnodion darluniadol a dogfennol sy'n gymorth o ran deall yr arwyddocâd

Y gallu i fwrw goleuni ar agweddau ar y gorffennol a sut maent yn ein cysylltu ag ef, neu **werth hanesyddol**

Y rhinweddau esthetig, neu'r **gwerth esthetig**

Eu gwerth i'r bobl sy'n ymwneud â nhw, neu **werth cymunedol**

Bydd gan bob un o'r uchod lefel wahanol o gyfraniad at arwyddocâd cyffredinol y lle, **a fesurir naill ai'n uchel, yn ganolig neu'n isel.** Gall gwerth sy'n cael ei fesur yn un isel ddangos lle mae'r cyfleoedd gorau ar gyfer newid neu wella. Pan fydd gwerth yn cael ei fesur yn un uchel, byddai effaith unrhyw gynigion arno yn tueddu i gael ei hystyried yn fwy niweidiol.

Gwerth Esthetig - Gall hyn fod yn werth goddrychol i asesu ond, yn gyffredinol, bydd adeiladau o werth esthetig uchel yn rhannu agweddau fel deunyddiau o ansawdd uchel a manylion pensaernïol

Gwerth Tystiolaethol - Gall hyn fod yn fanylion ar raddfa fawr a bach, megis yn y ddelwedd uchod, sef ceffyl o'r 19eg ganrif sydd bellach mewn adeilad allanol

Gwerth Cymunedol - Yn aml mae gan adeiladau fel eglwysi ac adeiladau cymunedol werth treftadaeth sylweddol, yn hanesyddol a heddiw fel mannau ymgynnull

Gwerth Hanesyddol - Mae Maes Nott yng Nghaerfyrddin yn cadw ei ffurf fel sgwâr y dref sy'n helpu ymwelwyr i ddeall sut y gallai'r dref ganoloesol fod wedi ymddangos

2.1.2 Effaith

Beth ydyw?

Mae'r effaith yn ymwneud â sut mae cynigion yn effeithio ar bob un o'r gwerthoedd sydd gyda'i gilydd yn ffurfio arwyddocâd cyffredinol lle. Er enghraifft;

Gwerth tystiolaethol – A yw'r cynnig yn arwain at golli adeiladwaith adeiladau (strwythurol neu anstrwythurol) sy'n ei gwneud yn anoddach deall sut mae'r adeilad neu'r safle wedi esblygu? Mae hyn yn ymwneud ag **unrhyw waith arfaethedig a fyddai'n cael effaith ffisegol ar yr adeilad**, gan gynnwys cael gwared ar ddeunydd presennol neu'n effeithio arno gydag unrhyw ychwanegiadau newydd. Er enghraifft, dileu rhaniadau neu ychwanegu strwythurau newydd. Byddai hyn hefyd yn ymwneud â gosodiadau a ffitiadau fel gwaith coed a gorffeniadau sydd o arwyddocâd hanesyddol.

Gwerth hanesyddol – A yw'r cynnig yn arwain at newidiadau sy'n ei gwneud yn anoddach deall sut y defnyddiwyd yr adeilad neu'r safle yn y gorffennol a sut mae wedi newid dros amser? Mae hyn yn ymwneud ag **unrhyw waith p'un a yw'n effeithio ar olion ffisegol lle ai peidio**.
Er enghraifft, newid mewn defnydd, ychwanegiadau newydd nad ydynt yn cael effaith ffisegol ond a fyddai'n newid y ffordd y mae adeilad yn gweithredu neu'n cael ei weld, gan gwmpasu tystiolaeth o newidiadau blaenorol.

Gwerth esthetig – A yw'r cynnig yn peryglu **egwyddorion dylunio hanesyddol** fel cynllun, graddfa, cyfran?

Gwerth cymunedol – A yw'r cynigion yn ei gwneud hi'n haws neu'n **anoddach i bobl werthfawrogi a chael mynediad** i'r adeilad, y safle neu'r ardal?

Sut mae'n cael ei fesur?

Bydd gan y rhan fwyaf o gynigion amrywiaeth o effeithiau sy'n cynnwys y canlynol:

Cadarnhaol – Yr agweddau hynny sy'n **gwella agwedd ar ei arwyddocâd,** er enghraifft drwy gael gwared ar elfennau sy'n amharu, er mwyn gallu gweld adeilad mewn Ardal Gadwraeth yn ei ffurf wreiddiol.

Niwtral – Yr agweddau hynny **nad ydynt yn gwella arwyddocâd ond nad ydynt ychwaith yn tynnu** oddi wrtho. Mae hyn fel arfer yn ymwneud â chynigion sydd wedi'u cynllunio mewn modd sensitif i gyd-fynd â'r lle presennol.

Negyddol – Agweddau sy'n **lleihau arwyddocâd lle** drwy addasu neu newid. Bydd cynigion sy'n arwain at effeithiau negyddol heb allu cyfiawnhau unrhyw fanteision ehangach yn cael eu gwrthod.

Gellir effeithio ar werthoedd gwahanol mewn gwahanol ffyrdd, ac weithiau gall gwneud gwelliant cadarnhaol i un gwerth arwain at effaith negyddol ar un arall. Os yw'r effaith gadarnhaol yn ymwneud ag ardal o arwyddocâd uchel a'r effaith negyddol yn ymwneud ag ardal o arwyddocâd isel, gellid cyfiawnhau bod yr asesiad o'r effaith yn gadarnhaol yn gyffredinol.

Gwerth Esthetig - Gall rhoi manylion newydd yn lle'r rhai gwreiddiol a gwneud newidiadau i gyfrannau arwain at golli egwyddorion dylunio gwreiddiol adeilad

Gwerth Cymunedol - Gall cau adeiladau sy'n agored i'r cyhoedd gael effaith negyddol ar werth cymunedol

Gwerth Tystiolaethol - Gall newidiadau i adeiladau, yn enwedig i brif wedd adeilad ei gwneud hi'n anodd darllen ei ffurf

Gwerth Hanesyddol - Mae addasiadau oherwydd newid defnydd o fod yn ddefnydd preswyl i un masnachol wedi newid ffurf, defnydd ac adeiladwaith yr adeilad

2.1.3 Asesiad o’r effaith

Beth ydyw?

Mae angen asesiadau o'r effaith ar gyfer unrhyw gais sy'n ymwneud ag adeilad neu le hanesyddol dynodedig . **Datganiadau ysgrifenedig yw'r rhain sy'n disgrifio sut mae arwyddocâd wedi'i asesu a sut ac i ba raddau y mae cynigion yn effeithio ar hyn**. Mae angen iddo ddangos sut mae arwyddocâd wedi cael ei gynnal neu ei wella er mwyn cael ei ystyried yn dderbyniol, gan gynnwys unrhyw fanteision cyhoeddus ehangach. Dylai arddangosiad o'ch proses i leihau effaith hefyd fod yn rhan o'r ddogfen hon.

2.1.4 Lliniaru

Beth ydyw?

Cyfeirir ato hefyd fel gwrthbwyso. Os na ellir osgoi effaith negyddol, lliniaru yw'r **broses y gweithredir i geisio lleihau'r niwed hwn**. Er enghraifft, gallai dyddodion archaeolegol gael eu tynnu neu eu cofnodi os bwriedir gosod strwythurau dros safle archaeolegol hysbys. Gellid cynllunio newidiadau i fod yn gildroadwy fel y gellir dadwneud niwed yn nes ymlaen. Gellid gwella deunydd esboniadol neu fynediad i gynyddu ymwybyddiaeth o le a allai ddirywio drwy'r cynigion. **Nid ystyrir bod dyluniad o ansawdd uchel yn weithred liniaru, ond yn drefn arferol** wrth ddylunio cynigion mewn amgylcheddau hanesyddol.

2.1.5 Gwella

Beth ydyw?

Mae hyn yn ymwneud ag **unrhyw beth a fydd yn cynyddu lefel yr arwyddocâd** yn ei werthoedd ar hyn o bryd. Er enghraifft, gellid gwella adeilad yn esthetig ac yn dystiolaethol trwy gael gwared ar newidiadau anghydnaws neu eu gwella'n gymunol trwy agor ardaloedd nad oeddent yn hygyrch o'r blaen. Gellir hefyd gwella lleoliad ardal trwy gael gwared ar elfennau sy'n amharu ar olygfeydd.

2.1.6 Cydbwyso niwed

Beth ydyw?

Byddai cynigion yr asesir bod iddynt effaith negyddol yn gyffredinol ar arwyddocâd fel arfer yn cael eu hystyried yn annerbyniol, oni ellir cyfiawnhau bod **manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ehangach** sy'n gorbwyso'r niwed hwn. Gallai hyn gynnwys:

- Nid oes unrhyw ddulliau amgen rhesymol o gyflawni gofyniad heb ryw lefel o niwed
- Mae cyn lleied â phosibl o niwed.
- Cyflawnir angen am bolisi cyhoeddus hollbwysig, megis mesurau sy'n gwneud lleoedd yn fwy hygyrch a/neu'n gynaliadwy a/neu'n hyfyw yn economaidd

Sut mae'n cael ei fesur?

Nid oes fformiwla benodol ar gyfer cydbwyso niwed ond, yn gyffredinol, dylai lefel yr arwyddocâd a asesir mewn perthynas â'r effaith a'r manteision cyhoeddus ehangach fod yn niwtral o leiaf. Er enghraifft;

Gwerth Esthetig Uchel + Effaith Negyddol + Manteision Cymdeithasol Cadarnhaol = Mae'r effaith yn niwtral yn gyffredinol

2.1.7 Rhagesiampl

Beth ydyw?

Mae rhagesiampl yn ddigwyddiad neu'n weithred gynharach a ystyrir yn esiampl neu'n ganllaw i'w ystyried mewn amgylchiadau tebyg yn y dyfodol. Er bod cysondeb o ran penderfyniadau cynllunio'n bwysig, lle mae cymeriad ardal wedi'i leihau oherwydd penderfyniadau cynllunio blaenorol neu waith anghyfreithlon, nid yw rhagesiampl yn ystyriaeth gynllunio ddilys. Ar ben hynny, os yw cymeriad ardal wedi'i leihau i raddau helaeth iawn, mae'r manylion hanesyddol sydd wedi goroesi mewn Ardal Gadwraeth yn dod hyd yn oed yn fwy prin ac felly maent hyd yn oed yn llai tebygol o gael cymeradwyaeth i gael eu tynnu neu eu hisraddio.

Wrth ddylunio estyniadau neu anheddau newydd yn lle rhai presennol, dylid dilyn cymeriad hanesyddol neu bensaernïol cyffredinol yr Ardal Gadwraeth, yn hytrach nag unrhyw ddatblygiad mewnlenwi neu ddatblygiad tir cefn amhriodol, sydd wedi'i ddylunio'n wael.

2.2 Cyd-destun a dylunio lleol

Wrth ystyried cynlluniau, dylai dylunwyr fynd trwy gyfres o fersiynau i sicrhau bod cynigion yn cadw at yr egwyddorion a nodir yn adran 1.4 a'u bod yn lleihau niwed trwy ddilyn y camau yn adran 2.1. Er mwyn helpu i lywio'r broses hon, bydd yr adran hon yn nodi, gydag enghreifftiau, agweddau allweddol sy'n cyfrannu at gymeriad presennol lle, adeilad neu strwythur ac y dylid eu hystyried, lle bo hynny'n berthnasol, yn feini prawf gofynnol i ddangos ystyriaeth drwy'r broses ddylunio.

2.2.1 Golygfeydd o fewn ardal, tuag ati ac ohoni

Mae golygfeydd tuag at ardal neu adeilad, tuag allan i'r dirwedd neu'r dirwedd gyfagos neu'r treflun, ac o un stryd neu ardal tuag at un arall yn rhannau sylfaenol o nodweddion lleoedd, gan roi cefndir i'r profiad y mae rhywun yn ei gael wrth symud trwy le. Mae llawer o wahanol fathau o olygfeydd, gan gynnwys:

1. **Tirnodau allweddol:** Mae'r adeiladau, y strwythurau neu'r mannau sy'n amlwg mewn golygfeydd yn darparu cyrchfannau clir neu'n nodi cyffyrdd a phyrth allweddol e.e. castell, cofgolofn neu feindwr eglwys.

2. **Golygfeydd o'r stryd**: Gall golygfeydd ar hyd strydoedd amrywio rhwng y rhai sy'n hir ac yn syth i'r rhai sy'n fwy troellog, a bydd pob un yn cynnig math gwahanol o olygfa; bydd ffordd syth hir yn eich galluogi i weld rhesi di-dor o adeiladau; mae ffyrdd crwm neu droellog yn eich annog i ddal ati i symud i ddarganfod beth sydd o gwmpas y gornel nesaf ; mae sgwariau'n creu golygfeydd caeedig a'r nodweddion amlycaf yw'r adeiladau o'u cwmpas; ac mae'r lonydd a'r strydoedd byrrach sy'n cysylltu'r prif ffyrdd yn darparu golygfeydd amgen, megis y tu ôl i adeiladau.


1.

2.

3. **Y dirwedd o amgylch a mannau agored:** Yn aml, oherwydd topograffi ardal, efallai y bydd lleoedd lle gallwch weld y dirwedd o amgylch neu nodweddion naturiol a rhai a wnaed gan ddyn. Weithiau golygfeydd eang a phanoramig yw'r rhain ac weithiau gellir eu gweld rhwng adeiladau.

4. **Golygfeydd sy'n dod i ben neu olygfeydd caeedig**: Mae'r golygfeydd y gellir cael cip ohonynt ar hyd strydoedd bychan, rhwng adeiladau ac ar hyd strydoedd cefn yn gymaint rhan o gymeriad tref â'i phrif dramwyfeydd a gallant ddangos rhan wahanol o hanes a chymeriad tref, megis iardiau gwasanaeth, datblygiadau preswyl llai, neu erddi cefn.

Wrth ystyried cynigion, yn enwedig y rhai ar gyfer adeiladau newydd, neu estyniadau ar gyfer adeiladau presennol, **mae'n hanfodol nad effeithir ar olygfeydd sy'n rhan o gymeriad lle**. Gallai hyn fod trwy rwystro golygfa'n llwyr, cael gwared ar adeiladau neu strwythurau sy'n gweithredu fel tirnodau, neu drwy newid golygfeydd strydoedd. Gall rhai golygfeydd fod yn arbennig o agored hyd yn oed i newid bach, a gall eraill ymdopi â rhywfaint o newid heb newid y cymeriad presennol. Bydd gan ddogfennau Arfarnu Ardaloedd Cadwraeth fapiau sy'n nodi golygfeydd arwyddocaol. Lle nad yw'r dogfennau hyn yn bodoli, ymgynghorwch â'r Tîm Treftadaeth Adeiledig i gael cyngor ar ba olygfeydd y dylid eu cadw a sut.

2.2.2 Lleoliad

Rhaid ystyried y gwaith dylunio a'r cyd-destun gyda'i gilydd er mwyn i gynigion fod yn gyson â'u hamgylchedd. Hyd yn oed os gellid ystyried cynigion ar eu pen eu hunain yn rhai 'ansawdd uchel', nid yw hyn yn golygu eu bod yn awtomatig o 'ansawdd uchel' pan gânt eu gweld yn eu lleoliad. Gellir cyfyngu lleoliad lle i'w gyd-destun uniongyrchol, neu mor eang â gwedd stryd gyfan. Mae'n hanfodol bod lleoliad cynigion yn cael ei ddeall, ei ddylunio a'i ddarlunio ar ei derfyn ehangaf posibl fel bod dealltwriaeth drylwyr o effaith yn cael ei hystyried. Bydd y berthynas rhwng cynnig a'i gyd-destun yn ystyriaeth bwysig gan y Cyngor ac yn aml bydd yn rhan hanfodol o drafodaeth ynghylch a ddylid rhoi caniatâd. Bydd gan bob safle ei rôl ei hun o ran sut y cyflawnir hyn, a benderfynir gan ei leoliad, ei faint a'i amgylchoedd. Y cam cyntaf yw dadansoddi hyn o dan y penawdau yn y bennod hon a phenderfynu **ble a sut y gall y cynigion atgyfnerthu'r ymdeimlad o le y mae'n ei greu yn hytrach na'i wanhau neu ei leihau.** Efallai y bydd angen edrych y tu allan i leoliad uniongyrchol lle os nad oes gan y cyd-destun uniongyrchol enghreifftiau da o ddylunio cyd-destunol sy'n ymwneud â lleoliad ehangach safle.



2.2.3 Deunyddiau adeiladu

Gall y deunyddiau a ddefnyddir i greu adeiladau, strwythurau neu leoedd fod yn un o'i gydrannau mwyaf gweledol ac efallai yn un o'r hawsaf i'w gydnabod ynghylch y cyfraniad at gymeriad. Er bod palet cyffredin mewn ardal fel arfer, mae'n bwysig cydnabod ble a sut mae hyn yn amrywio a'r effaith y gallai hyn ei chael ar argraff, er enghraifft:

- Yn aml, gall adeiladau mwy o faint a rhai crefyddol ddefnyddio deunyddiau nad yw eraill o bosib yn gallu eu defnyddio.
- Mae'n bosibl y bydd ardaloedd, strydoedd neu adeiladau unigol sy'n unigryw o ran y defnydd o ddeunydd na

  welir yn unman arall, gan greu nodwedd amlwg yn y mannau hynny.
- Gallai'r defnydd o ddeunyddiau fod wedi'i gysylltu'n agos ag esblygiad

  hanesyddol lle, er enghraifft, efallai fod deunyddiau lleol wedi cael eu disodli dros amser gan ddeunyddiau mwy ffasiynol a fewnforiwyd wrth i lwybrau masnach agor a chwaeth bensaernïol ddatblygu
- Gall lliw a gwead deunyddiau effeithio ar yr argraff gyffredinol o le, er enghraifft gall carreg dywyll deimlo'n drwm ac yn ormesol mewn cyferbyniad â rendro sydd wedi'i baentio'n llachar

Wrth ystyried y deunyddiau mwyaf priodol ar gyfer safle penodol, bydd yn bwysig **cydnabod y palet lleol**, ond dylid hefyd ystyried ffactorau eraill. Gallai hyn gynnwys pris, cynaliadwyedd, hirhoedledd, gwaith cynnal a chadw, a'r defnydd. Bydd angen ystyried pob un o'r rhain a'u pwyso a mesur mewn perthynas â golwg cyffredinol. Pan na ddefnyddir y palet lleol o ddeunyddiau, rhaid cyfiawnhau'r manteision ehangach o ddefnyddio deunydd , gan gynnwys sut y cynigir y bydd y dyluniad yn gydnaws â'i gyd-destun.

2.2.4 Uchder adeiladau

Gall uchder cyffredinol adeilad neu strwythur **effeithio'n fawr ar olygfeydd a chymeriad lle**. Mewn rhai lleoliadau, gall amrywio o adeilad i adeilad ganiatáu mwy o ryddid i ychwanegu uchder, ond os oes cysondeb, bydd adeilad sy'n rhy uchel neu'n rhy fyr yn dueddol o gael effaith niweidiol. Dylai lleoliad cynnig hefyd fod yn ffactor wrth wneud penderfyniad. Gall cynigion sy'n rhy uchel fwrw cysgod neu ormesu ar eiddo cyfagos. Mae lleiniau cornel yn aml yn dalach mewn tai teras lle mae'r tŷ neu'r tai olaf yn dalach na'r gweddill, ac maent yn creu mynedfeydd llawn cymeriad i strydoedd. Mae'n hanfodol bod cynigion **yn ystyried cyd-destun ehangach a chyd-destun uniongyrchol safle** i gadw at nodweddion lleol gan **osgoi effeithio'n negyddol ar adeiladau cyfagos neu olygfeydd pellennig**. Gall hyn fod yn broblem yn arbennig lle mae adeiladau tal yn cael eu cynnig y tu allan i Ardaloedd Cadwraeth. Gweler adran 3.

Hen leiniau tir bwrdais a welir drwy'r pyrth cul. Mae'r teras yn darparu cysondeb o ran lled ac uchder adeilad ynghyd â pherthynas adeilad ag ymyl y stryd

Yn wahanol i'r uchod, mae cymeriad presennol golwg y stryd i'w weld drwy uchder a lled yr adeiladau sy'n amrywio a sut maent yn sefyll ar ymyl y stryd

2.2.5 Perthynas â lleiniau

Fel y nodwyd uchod, bydd ardaloedd lle mae ffurfiau adeiladau'n gyson, yn ffurfio terasau, a'r rhai lle mae'r manylion yn amrywio o un adeilad i'r llall. **Weithiau gall amrywiadau fod yn elfen gadarnhaol o gymeriad**, gan arwain at ddiddordeb wrth i chi grwydro ar hyd stryd, **ond gallant hefyd fod yn negyddol os ydynt yn torri ar draws nodweddion cyffredin**. Gall hefyd ddod i'r amlwg fod esblygiad hanesyddol stryd neu le, a defnydd adeilad yn perthyn yn agos i'r nodweddion hyn. Er enghraifft, mae eglwysi a chapeli fel arfer yn dalach na'r adeiladau cyfagos ac maent yn ôl o ymyl y stryd i bwysleisio eu presenoldeb, ac mae bythynnod gweithwyr o'r 18fed a'r 19eg ganrif fel arfer yn cael eu hadeiladu fel terasau hirach yn union ar ymyl y palmant.

Fel arfer, roedd cynllunio tref ganoloesol yn cynnwys cyfres o leiniau tir bwrdais a oedd yn ddarnau hir a chul o dir ac yn cael eu rhentu i denantiaid. Weithiau gellir gweld hyn o hyd drwy'r tu blaen i strydoedd cul sydd â gerddi cefn hir. Fodd bynnag, wrth i drefi ddatblygu, byddai plotiau'n aml yn cael eu hymrannu i fewnlenwi gerddi a chreu adeiladau ychwanegol. Gall hyn gael effaith ar ddwysedd ardal a pha mor dda y gellir adnabod ffurfiau lle o'r gorffennol. **Gall gorddatblygu lleiniau o dir, heb roi sylw priodol i gynllunio trefi hanesyddol na nodweddion cyffredin gael effaith niweidiol**.

Rhaid i gynigion ddangos ym mha ffordd y mae adeiladau neu strwythurau newydd yn ymwneud â'u llain yn gyffredinol i ddangos sut y mae'r agweddau hyn wedi cael eu hystyried. Lle mae lleiniau'n cael eu mewnlenwi, mae'n hanfodol bod y berthynas ag adeiladau cyfagos yn cael ei hystyried o safbwynt amwynder, ond hefyd o ran dylunio pensaernïol.

2.2.6 Manylion Pensaernïol

Gall adeilad ddenu sylw yn ei amgylchedd oherwydd ei rôl amlwg o fewn y dreflun, a hynny yn aml yn sgil cyfoeth ei fanylion pensaernïol. Mae defnyddiau mwy arwyddocaol yn tueddu i gael eu mynegi trwy bensaernïaeth yr adeilad, er enghraifft mae neuaddau tref, banciau ac eglwysi yn dangos mwy o gyfoeth o ran deunydd pensaernïol a manylion na phreswylfa. Felly, anogir bod **manylion pensaernïol yn adlewyrchu statws yr adeilad** neu'r strwythur sy'n cael ei ddylunio a'i bwysigrwydd cyffredinol i'r treflun. **Dylid ystyried manylion presennol adeiladau eraill o statws a lleoliad tebyg** fel man cychwyn i sicrhau yr ansawdd, y cadernid a'r sefydlogrwydd parhaus sydd gan adeiladau Sir Gaerfyrddin fel arfer. Ni ddylid anwybyddu **rhoi ystyriaeth i'r cefn ac i'r ochrau**, oherwydd gall y rhain chwarae rhan hanfodol yng nghymeriad lonydd cefn, gerddi cefn a mannau cyhoeddus clyd.



CANLLAWIAU TREFTADAETH SIR GAERFYRDDIN

Byrddau esboniadol ac arwyddion cyfeirio

Celfi llecynnau cyhoeddus

Tirlunio caled a meddal

Seilwaith traffig

2.2.7 Llecynnau cyhoeddus

Mae'r mannau rhwng adeiladau yn creu'r lleoliad ar gyfer y dref gyfan ac maent yn elfen hanfodol wrth ystyried cadw cymeriad. O fewn Ardaloedd Cadwraeth, **bydd cysondeb o ran dull gweithredu yn uno mannau ac yn cynnal argraff o ran ansawdd**, gan nodi eich bod yn mynd i mewn i le sy'n arwyddocaol. **Rhaid i ddyluniad ac ansawdd** celfi, arwyddion, goleuadau a thirlunio meddal a chaled llecynnau cyhoeddus **adlewyrchu'r arwyddocâd hwn**. Pan fuddsoddir mewn llecynnau cyhoeddus, **rhaid ystyried y gwaith cynnal a chadw** parhaus o ran hyn, gan gynnwys atgyweirio'r elfennau presennol, **yn ystod y cam dylunio** er mwyn osgoi colli'r buddsoddiad hwn.

2.2.8 Deunyddiau a thriniaethau ffiniau

Roedd ffiniau hanesyddol lleiniau o dir fel arfer wedi'u ffurfio o gerrig neu reiliau metel ac efallai y gwelwch fod arddull a deunydd y rhain yn debyg ledled ardal, er bod adeiladau mwy o faint neu adeiladau crefyddol yn aml yn defnyddio arddull ddylunio mwy arbennig. **Mae ailosod ffiniau hanesyddol** gan ddefnyddio dyluniad neu ddeunydd arall, neu eu gwaredu'n gyfan gwbl, yn aml i greu tramwyfeydd, **yn effeithio nid yn unig ar leoliad adeiladau unigol, ond hefyd ar olygfeydd, ar y modd y caiff lleiniau adeiladau eu rhannu a pha mor hawdd y gallai rhywun weld ffurf hanesyddol tref.**

Rhan 3 - Materion

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r materion cyffredin a nodwyd drwy baratoi deg Arfarniad Ardal Gymeriad ar gyfer y sir. Mae'r rhain yn ymwneud â'r eitemau hynny sydd ar hyn o bryd yn achosi niwed i olwg a chymeriad yr ardaloedd hyn. Ochr yn ochr â phob un mae argymhelliad rheoli gyda'r bwriad o sicrhau bod cymeriad, golwg ardaloedd cadwraeth, eu harwyddocâd a'u diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig yn cael eu cadw a'u gwella.
Trwy nodi'r materion a'r bygythiadau cyffredin hyn, y gobaith yw y gellir atal dirywiad ac osgoi niwed.

Wrth baratoi cynigion, rydym yn argymell y dylid ymgynghori â'r rhain i osgoi gwneud camgymeriadau cyffredin eto. Mae angen i'r Cyngor Sir ystyried y cynigion rheoli hyn fel rhan o'i ddyletswydd i dalu 'sylw arbennig... i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg' yr ardaloedd hyn pan fydd cynigion yn cael eu datblygu neu eu hasesu.

	Mater	Rheoli
1.0	**Golygfeydd a Lleoliad**	
1.1	**Gall golygfeydd tuag at ardaloedd ac ohonynt** fod yn anodd eu diogelu, gan fod yr adeiladau hynny sydd â'r potensial o effeithio ar olygfeydd allweddol yn gallu bod y tu allan i ardaloedd gwarchodedig fel Ardaloedd Cadwraeth; weithiau gall eu heffaith ddod yn gwbl amlwg ar ôl y gwaith adeiladu yn unig. Mae hyn yn ymwneud â chyflwyno adeiladau tal y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, neu'r rhai ar dir uwch sy'n effeithio ar yr olygfa o bellter hir o'r dirwedd y tu hwnt.	Dylid asesu'r datblygiad o fewn lleoliad ardal gadwraeth yn ofalus er mwyn deall effaith y cynigion ar arwyddocâd yr ardal gadwraeth. Ni ddylai datblygiad newydd guddio na thynnu oddi wrth olygfeydd pwysig o fewn ardal, tuag ati neu ohoni. Dylid nodi golygfeydd a thirnodau pwysig a dylid asesu'n ofalus gynigion sydd â'r potensial i effeithio arnynt a chwympo o fewn y rhain. Efallai y bydd angen golygfeydd a luniwyd gan gyfrifiadur sydd wedi'u dilysu ac sy'n dangos effeithiau posibl cynigion i ddangos yr effaith ar gymeriad a golwg yr ardal neu ei leoliad.
1.2	Mae **strydoedd bychain** a **chefn adeiladau** yn rhannau o Ardaloedd Cadwraeth sy'n llawn cymeriad, ac sy'n cynnig cip ar olygfeydd i ffwrdd o'r prif dramwyfeydd. Oherwydd y canfyddiad o ddiffyg gweledded, gall yr ardaloedd hyn annog ymddygiad gwrthgymdeithasol fel sbwriel, difrod i adeiladau, llecynnau cyhoeddus , a graffiti. Mae'r ardaloedd hyn hefyd yn dioddef o ddiffyg cynnal a chadw cyffredinol yn y llecynnau cyhoeddus a thriniaethau ffiniau, a all leihau cymeriad yr ardaloedd hyn.	Dylid asesu cynigion datblygu yn ofalus i ddeall effaith cymeriad a golwg strydoedd bychain a chefn adeiladau, yn ogystal â golygfeydd allweddol a phrif dramwyfeydd.
1.3	Mae **mannau gwyrdd** sy'n bodoli eisoes yn darparu torbwyntiau pwysig i'r adeiladau ac mae angen eu gwarchod yn effeithiol ac yn barhaus, yn enwedig yn ystod gwaith datblygu ac addasu newydd. Gall colli coed newid golygfeydd allweddol yn sylweddol.	Dylid mynd ati'n weithredol i gynnal a chadw mannau gwyrdd, a dylid mabwysiadu prosesau rheoli sy'n sicrhau bod eu diddordeb arbennig a'u gwerth ecolegol yn cael eu cadw a'u gwella. Mae'r cwmpas ar gyfer plannu rhagor o goed a phlanhigion eraill i wella golwg yr ardal gadwraeth a'i photensial o ran bioamrywiaeth yn cael ei annog.
1.4	Mae angen ystyried a rheoli'n ofalus unrhyw ddatblygiad i **gyrion henebion** neu i adeiladau o arwyddocâd mawr, neu rai sydd â chysylltiad gweladwy ar eu traws neu oddi wrthynt.	Dylid asesu'n ofalus gynigion sydd â'r potensial i effeithio ar asedau treftadaeth. Efallai y bydd angen golygfeydd a luniwyd gan gyfrifiadur sydd wedi'u dilysu ac sy'n dangos effeithiau posibl cynigion i ddangos yr effaith ar eu lleoliad.

	Mater	Rheoli
2.0	**Dymchwel adeiladau ac adeiladwaith**	
2.1	Gall **dymchwel adeiladau'n rhannol neu'n gyfan gwbl** sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg Ardaloedd Cadwraeth leihau ansawdd pensaernïol yr ardal. Gall hyn gynnwys ailddatblygu adeiladau cyfan neu fannau'n rhannol fel simneiau, waliau terfyn ac estyniadau.	Mae llawer o adeiladau rhestredig ac adeiladau pwysig heb eu rhestru sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg ardaloedd cadwraeth, ac mae rhagdybiaeth gref fod yr adeiladau hyn a'u nodweddion yn cael eu cadw.
2.2	Gellir defnyddio **cyflwr gwael adeiladau** sydd wedi bod allan o ddefnydd neu sydd wedi dioddef o waith cynnal a chadw gwael i roi pwysau ar yr Awdurdod Lleol i ddymchwel ac ailddatblygu. Gall hyn arwain at y camddealltwriaeth fod ailddatblygu ar raddfa fawr yn briodol, pan allai **rheolaeth ofalus o newidiadau yn y dyfodol** adfer cymeriad gwreiddiol yr adeiladau hyn, gwella'r Ardal Gadwraeth, ac osgoi colli carbon ymgorfforedig a welwyd eisoes trwy ei waith adeiladu gwreiddiol.	Pan fo tystiolaeth o esgeulustod bwriadol neu ddifrod i ased treftadaeth, ni ddylid ystyried cyflwr ased treftadaeth sydd wedi dirywio mewn unrhyw benderfyniad. Os cynigir dymchwel adeilad, dylid ystyried y cylch carbon yn gyfan, gan ystyried carbon yr adeilad presennol. Efallai y byddai'n briodol cadw ac addasu'r adeilad presennol yn hytrach na rhoi adeilad newydd yn ei le. Anogir gofalu am adeiladau traddodiadol a hanesyddol a'u hailddefnyddio er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, a hynny drwy weithredu mesurau gwell o ran cynnal a chadw, rheoli ac effeithlonrwydd ynni.
2.3	Gall **colli adeiladau mewn llinell stryd** achosi torbwyntiau sy'n amharu ar y golygfeydd gweddluniol pell sy'n nodweddiadol o sawl ardal ac sy'n gallu arwain at weddluniau gwag o dalcennau tai.	Bydd rhagdybiaeth yn erbyn creu bylchau modern a fyddai'n amharu ar olygfeydd gweddluniol hirbell o linellau stryd sefydledig.
3.0	**Ailddatblygu**	
3.1	Gall defnyddio **deunyddiau modern** nad ydynt yn briodol o ran y palet presennol o ddeunyddiau neu nad ydynt yn ategu ato leihau cymeriad hanesyddol ac arwyddocâd Ardal Gadwraeth. Er y dylai adeilad fod yn gydnaws â'i amser, bydd rhywfaint o ystyriaeth i'r palet gwreiddiol o ran deunyddiau Ardal Gadwraeth yn sicrhau parhad. Yn yr un modd, **gall adeiladau wedi'u dylunio'n wael** achosi niwed; rhaid parchu nodweddion gwreiddiol dyluniad o'r 18fed ganrif, y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif er mwyn atal niwed.	Dylai cynigion datblygu ymateb i gymeriad a golwg unigryw ardal a'i lleoliad a'i pharchu, a dylent fod yn briodol o ran graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, safle'r plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd fod o ansawdd uchel, o ran y dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Yn gyffredinol, dylai'r holl waith i adeiladau hanesyddol, newidiadau ac estyniadau ymateb yn gadarnhaol i arddull bensaernïol wreiddiol yr adeilad a'i leoliad a dylai wella ei olwg traddodiadol.

	Mater	Rheoli
3.2	Gall **lleiniau cornel** fod yn byrth pwysig, gan gynnig seibiannau naturiol rhwng adeiladau a nodi cyffyrdd i ffyrdd cangen.	Lle mae adeiladau cornel yn cael eu hailddatblygu neu pan fo rhai newydd yn cael eu codi yn eu lle, mae angen dealltwriaeth o'u heffaith a sut y gallant helpu i gryfhau pwyntiau allweddol.
3.3	Gall y pwysau ar gyfer datblygu arwain at **fewnlenwi lleiniau hanesydd**, yn aml gydag adeiladau sydd o ddyluniad annodweddiadol nad ydynt yn ymateb i gymeriad yr Ardal Gadwraeth.	Dylai cynigion datblygu barchu cymeriad a golwg unigryw'r ardal a'i lleoliad ac ymateb iddynt, a dylent fod yn briodol o ran graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, safle'r plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad, a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd uchel, o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir.
3.4	Gall gweledded o'r **tu cefn i eiddo** achosi i ardaloedd sydd o fewn golwg sy'n cael eu haddasu gael effaith sylweddol ar lecynnau cyhoeddus, gan gynnwys colli waliau terfyn ar ymyl strydoedd, gosod grisiau dianc cefn, estyniadau a lloriau caled.	Dylid asesu cynigion datblygu yn ofalus i ddeall effaith y cynigion ar gymeriad a golwg strydoedd bychain a chefn adeiladau, yn ogystal â golygfeydd allweddol a phrif dramwyfeydd.
3.5	Mae **cysondeb o ran uchder llawr, màs a maint llain** yn achosi i unrhyw wyriadau gael effaith ar unwaith, yn enwedig lle mae golygfeydd am bellteroedd maith. Er enghraifft, lle mae adeiladau cyfoes wedi'u cynllunio gyda lled cynyddol heb roi sylw dyledus i gael gwared ar fàs yr adeiladau, nid yw'r rhain wedi integreiddio'n llwyddiannus i'w hamgylchoedd.	Yn gyffredinol, dylai'r holl waith i adeiladau presennol, ynghyd ag addasiadau ac estyniadau, ymateb yn gadarnhaol i arddull bensaernïol wreiddiol yr adeilad a'i leoliad a dylai wella ei olwg traddodiadol.
3.6	Gall y gofynion y gellir eu rhoi ar Ardaloedd Cadwraeth yn ôl maint y **gweithgarwch masnachol** arwain at nifer uchel o gasgliadau sbwriel a danfoniadau nwyddau a all ychwanegu at dagfeydd traffig, gan leihau cymeriad yr ardal. Lle mae'r strydoedd yn bennaf yn rhai preswyl, gallai cyflwyno defnydd newydd, fel gweithgarwch masnachol roi pwysau ar y strydoedd hyn o ran casglu a storio sbwriel, dosbarthu nwyddau a cholli adeiladwaith hanesyddol wrth gyflwyno blaenau siopau.	Yn rhan o'r ddealltwriaeth o effaith datblygiadau sy'n cyflwyno defnyddiau newydd neu sy'n dwysáu'r defnydd presennol, dylid cynnwys nid yn unig asesiad pensaernïol, ond hefyd asesiadau ynghylch sŵn, llecynnau cyhoeddus, dosbarthu nwyddau a chasglu a storio sbwriel.
3.7	Lle mae trefi'n ddwys iawn ac mae'r meysydd gwasanaeth yn gyfyngedig, gellir gosod **biniau** ar briffyrdd cyhoeddus ac o fewn llecynnau cyhoeddus. Mae hyn yn cael effaith weledol negyddol a gall arwain at ddirywiad pellach oherwydd bod hyn yn annog ymddygiad gwrthgymdeithasol.	Dylai cynigion gynnwys dealltwriaeth o sut mae sbwriel yn cael ei storio a'i gasglu.

	Mater	Rheoli
3.8	Lle mae **sgwariau trefi** neu fannau cyhoeddus mwy o faint, gall y rhain ffurfio rhan sylweddol o gymeriad ardal a gallant fod o arwyddocâd hanesyddol. Dylid ystyried yr adeiladau yn y mannau hyn ar y cyd, a'u bod o werth grŵp. Gall datblygiadau newydd nad ydynt yn cydnabod hyn amharu ar eu lleoliadau ac effeithio'n sylweddol arnynt.	Dylai cynigion datblygu ymateb i nodweddion unigryw a golwg yr ardal gadwraeth a mannau unigryw ynddi, a dylent fod yn briodol o ran graddfa, dwysedd, uchder, ffurf, màs, cynllun, safle'r lleiniau, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd sydd wedi'i leoli o fewn ardal o werth grŵp gydnabod effaith ehangach cynnig.
3.9	Mae terasau'n aml yn nodwedd sylweddol yn nhrefi Sir Gaerfyrddin. Gallai **perchnogaeth hollt**, neu fewnosod **unedau adwerthu ar y llawr gwaelod** arwain at ddull datgymalog o ran cynnal a chadw ac addasiadau i adeiladau sy'n unedig fel arall os nad ydynt yn cael eu hystyried yn briodol.	Mae angen deall effaith newid defnydd adeiladau yn llawn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw niwed cysylltiedig a allai effeithio ar yr Ardal Gadwraeth.
4.0	**Newidiadau a cholli nodweddion gwreiddiol**	
4.1	Gall cyflwyno gwaith sy'n ymddangos yn fân gael effaith gronnol ar adeiladau yn gyffredinol, ar grŵp o adeiladau neu ar leoliad Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys yr enghreifftiau cyffredin canlynol:	Gwiriwch gyda'r awdurdod cynllunio i benderfynu a oes angen Caniatâd Cynllunio ar gyfer unrhyw un o'r newidiadau a nodir isod cyn ymgymryd â'r gwaith. Gellid ystyried y defnydd ehangach o Gyfarwyddiadau Erthygl 4.
4.1.1	Inswleiddio Waliau Allanol	Gall arwain at newid cymeriad adeilad/strydlun. Gall arwain at ddifrod a phroblemau o ran cyddwysiad.
4.1.2	**Newid ffenestri i rai PVC newydd**	Mae'n arwain at golli adeiladwaith a newid cymeriad adeilad/strydlun.
4.1.3	Cyflwyno **gwasanaethau newydd** sydd mewn man amlwg gan gynnwys soseri lloeren	Gall achosi annibendod allanol a gwneud toeau i edrych yn anniben yn ogystal â cholli adeiladwaith oherwydd gosodiadau a llwybrau ceblau.
4.1.4	Gosod **paneli solar**	Gall arwain at newid sylfaenol i'r golwg allanol.
4.1.5	**Colli nwyddau dŵr glaw haearn bwrw**	Mae'n arwain at golli adeiladwaith a newid cymeriad strydlun a/neu adeilad.

	Mater	Rheoli
4.1.6	Gosod teils coch a theils concrit yn lle rhai **llechi**	Gall arwain at ddifrod trwy ychwanegu llwythi ychwanegol at strwythur to sy'n bodoli eisoes.
4.1.7	Colli simneiau	Gall arwain at newid cymeriad adeilad/strydlun. Gall achosi lleithder ac anwedd trwy golli awyru goddefol.
4.1.8	**Colli drysau ffrynt â phaneli pren** gyda chanopïau a setiau drysau	Mae'n arwain at golli adeiladwaith a newid cymeriad adeilad/strydlun.
4.1.9	**Colli ffiniau hanesyddol** fel rheiliau a waliau cerrig rwbel	Mae'n arwain at golli adeiladwaith a diffiniad clir o ran leiniau a mannau cyhoeddus/preifat.
4.1.10	Mae **dormerau** o wahanol raddfeydd a dyluniadau wedi'u hintegreiddio mewn adeiladau ledled y sir. Lle mae amrywiaeth o fewn toeau ac mae'r dyluniadau o ansawdd uchel gan ddefnyddio deunyddiau cydnaws, mae'r rhain wedi'u hintegreiddio'n llwyddiannus. Yn enwedig mewn ardaloedd lle geir mwy o gysondeb, mae angen deall effaith y rhain.	Dylai cynigion datblygu sy'n effeithio ar doeau adeilad barchu ac ymateb i gymeriad a golwg unigryw ei leoliad, a dylent fod o raddfa, deunydd, a chyfansoddiad priodol ynghyd â chynnwys dyluniad manwl.
4.1.11	Mae topograffi ardal yn golygu y gall mewnosod eitemau fel **erialau a soseri lloeren** leihau cymeriad, yn enwedig mewn ardaloedd sydd ag arddull fwy unffurf, neu lle ceir golygfeydd pellach o'r stryd.	Gellid ystyried y defnydd ehangach o Gyfarwyddiadau Erthygl 4 fel bod angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer newidiadau o'r fath. Pan fo cynigion ar gyfer adeiladau ar lethrau sy'n rhoi golygfeydd o doeau, dylid asesu effaith cynigion ar y golygfeydd hyn fel rhan o'r broses ymgeisio.
4.1.12	**Mae defnyddio gro chwipio yn lle rendrad calch traddodiadol** wedi cael effaith sylweddol ar adeiladau a golygfeydd trwy Ardaloedd Cadwraeth.	Anogir y defnydd o ddeunyddiau traddodiadol fel rendrad calch a gwrthodir ceisiadau ar gyfer cyflwyno plasteri a rendradau amhriodol. Gall rendradau amhriodol arwain at ddifrod i ddeunyddiau, anwedda phroblemau lleithder.
4.1.13	Gall **lliwiau llachar** adeiladau fod yn rhan apelgar a bywiog o Ardaloedd Cadwraeth. Gallai cyflwyno lliwiau amhriodol amharu ar y rhythm hwn a chael effaith ar y golygfeydd mewn ardal.	Rhaid cydnabod palet lliw lle sy'n bodoli eisoes o fewn cynigion.

	Mater	Rheoli
5.0	**Celfi stryd, arwyddion a ffyrdd**	
5.1	**Gall traffig mwy dwys a threfn ffyrdd a reolir yn wael** gael effaith niweidiol ar gymeriad cyffredinol ardal, gan golli mannau stopio, ac ardaloedd i ymgynnull a fyddai fel arall yn caniatáu ar gyfer eiliadau o fyfyrio a gwerthfawrogi. **Mae mannau croesi cyfyngedig a phalmentydd cul** hefyd yn achosi i strydoedd gael eu gwahanu oddi wrth ei gilydd a phrin yw'r gwerthfawrogiad o adeiladau oherwydd bod traffig trwm yn cuddio'r lloriau is.	Dylid chwilio am gyfleoedd i gael rhagor o gerddwyr a dylid ceisio cael trefn well o ran ffyrdd lle bo hynny'n bosibl. Dylai datblygiadau mawr newydd wella'r cysylltedd i feicio a cherdded ac ymgorffori mannau cyhoeddus.
5.2	Gall y diffyg cydlynu wrth drin palmentydd, ffyrdd a llwybrau cerdded i gerddwyr, gan gynnwys **diffyg cydlyniant o ran y defnydd o ddeunyddiau, arwyddion, marciau ffyrdd a thriniaethau rhwystrau** arwain at ddirywiad yng nghymeriad llecynnau cyhoeddus a newidiadau sylweddol rhwng ardaloedd a fyddai fel arall yn rhannu cysylltiad cryf â'i gilydd. Mae **gwaith atgyweirio'n rhannol a defnyddio dulliau atgyweirio amhriodol** hefyd wedi arwain at ddirywiad cyffredinol i'r strydlun mewn llawer o drefi.	Dylid cydlynu'r gwaith o ddylunio strydoedd a mannau cyhoeddus o ran eu defnydd o oleuadau, deunyddiau, triniaethau ffiniau a chelfi. Dylid ceisio cyfleoedd i wella golwg strydoedd gan gynnwys tacluso, cynnal a chadw gwaith paentio a chyflwyno deunyddiau wyneb a chelfi stryd priodol pan fo hynny'n bosibl.
5.3	Mae **diffyg cysondeb o ran dyluniad celfi stryd a'u hansawdd uchel**, gan gynnwys goleuadau stryd a meinciau modern mewn llawer o drefi. Byddai defnyddio dull cydlynol o ddefnyddio celfi stryd sydd o ansawdd uchel o ran dyluniad yn helpu i uno cymeriad ardal ac yn gwella ansawdd y llecyn cyhoeddus yn sylweddol.	Dylai arwyddion a chelfi gael eu cynllunio a'u hintegreiddio mewn modd sensitif i olwg y stryd. Byddai dull cydlynol yn helpu i uno cymeriad yr ardal a chodi ansawdd y llecynnau cyhoeddus. Dylid deall y cwmpas ar gyfer cyflwyno goleuadau stryd mwy traddodiadol, deunyddiau palmant traddodiadol, a mwy o waith plannu ar strydoedd ledled ardaloedd cadwraeth pan fydd cynigion yn cael eu paratoi.
5.4	Gall **'annibendod stryd'** yn sgil llawer iawn o arwyddion cyhoeddus, bolardiau a rhwystrau, yn enwedig ar ochr ffyrdd, achosi dryswch, rhwystro golygfeydd, a thynnu oddi wrth yr amgylchedd ehangach.	Dylid ceisio cyfleoedd i wella golwg strydoedd gan gynnwys tacluso pan fo hynny'n bosibl.
5.5	Mae **enwau lleoedd Cymraeg** yn rhan bwysig o hanes trefi a lle mae'r rhain yn goroesi, dylid cadw'r rhain.	Dylid osgoi ailenwi strydoedd ac adeiladau presennol os bydd hyn yn arwain at golli rhan sylweddol o ddatblygiad y dref.

	Problem	Rheoli
6.0	**Triniaethau ffiniau a pharcio**	
6.1	Mae'r **cynnydd yn y galw am barcio ar y safle ac ar y stryd** wedi arwain at golli triniaethau ffiniau hanesyddol i ymgorffori lloriau caled a mannau parcio. Gall hyn amharu ar olygfeydd drwy ardal, mewn ardal ac allan ohoni.	Bydd y gwaith o adfer waliau terfyn traddodiadol yn cael ei gefnogi a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli waliau terfyn hanesyddol a gerddi blaen sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr ardal.
6.2	Gall cyflwyno **deunyddiau modern i greu ffiniau newydd a thirlunio caled** nad ydynt yn cyd-fynd â'r Ardal Gadwraeth neu o ansawdd digonol leihau cymeriad ac amharu ar olygfeydd.	Dylai'r gwaith o ddylunio strydoedd a mannau cyhoeddus gael ei gydlynu o ran y dull o ymdrin â thriniaethau ffiniau a thirlunio caled. Dylid ceisio cyfleoedd i wella golwg strydoedd gan gynnwys cyflwyno deunyddiau wyneb a ffiniau priodol lle bo hynny'n bosibl.
7.0	**Dylunio Blaen Siopau**	
7.1	Gall cyfraniad blaen siopau at ardal fod yn sylweddol, a **gall gosod dyluniadau blaen siopau amhriodol** gael effaith negyddol ar gymeriad ardal. Mae nifer o enghreifftiau o flaen siopau hanesyddol ledled y sir a lle mae'r rhain yn bodoli, gallant ddarparu cyfraniad pwysig i'r strydlun a bod yn ysbrydoliaeth ar gyfer dylunio yn y dyfodol a arweinir gan dreftadaeth. Mae'r nodweddion sydd wedi cael eu gweld yn arwain at effaith negyddol yn cynnwys:	Lle bo blaen siop presennol yn cynrychioli enghraifft dda o arddull gynharach sy'n briodol i gymeriad yr ardal a'r adeilad dan sylw, dylid ei gadw a'i adnewyddu yn hytrach na gosod un newydd yn ei le. Mae gosod blaen siopau sydd â dyluniadau mwy priodol yn lle rhai modern anghydnaws yn gallu gwella adeiladau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth yn fawr a bydd hyn yn cael ei gefnogi.
7.1.1	**Diffyg ystyriaeth rhwng y llawr gwaelod a'r adeilad uchod**, er enghraifft dyblygu lled ffenestri bae, a chydnabyddiaeth o fanylion pensaernïol ac arddull yr adeilad presennol.	Gweler Canllaw Dylunio Blaen Siopau Sir Gaerfyrddin i gael cyngor ac arweiniad.

	Problem	Rheoli
7.1.2	**Ffasgiâu mawr** nad ydynt yn gymesur ag adeiladau cyfagos, neu sy'n llethu blaen yr adeilad ac sy'n cynnwys manylion hanesyddol sydd wedi goroesi.	Gweler Canllaw Dylunio Blaen Siopau Sir Gaerfyrddin i gael cyngor ac arweiniad.
7.1.3	Defnyddio **arwyddion amhriodol**, gan gynnwys arwyddion wedi'u goleuo.	
7.1.4	Defnyddio **deunyddiau cyfoes** amhriodol**, neu liwiau**, fel persbecs, PVC neu alwminiwm, nad yw eu natur adlewyrchol fel arfer yn parchu palet traddodiadol o ddeunyddiau.	
7.1.5	**Gweddluniau dau ddimensiwn**, gan gynnwys ardaloedd mawr o wydr plât, sy'n gormesu'r ffasâd ac nad oes fawr ddim perthynas â thrin y gweddluniau uchod.	
7.1.6	Colli rhan o'r blaen siop o dan y ffenestr, sy'n darparu sylfaen i flaen y siop uwchben a'i lorio o fewn y strydlun.	
7.1.7	**Gosod caeadau diogelwch allanol** a all effeithio'n sylweddol ar olwg allanol adeilad ac ychwanegu at ddiffyg diogelwch canfyddedig.	
7.1.8	Cyflwyno **adlenni neu ganopïau** sydd wedi'u graddio'n amhriodol, a hynny'n aml mewn deunyddiau anhraddodiadol, sy'n torri rhythm teras a'r llinell adeiladu.	
7.1.9	Pwysau **brandio** sy'n gysylltiedig â chyflwyno siopau cadwyn sy'n aml yn dilyn dull unffurf heb ystyried nodweddion unigol adeilad.	
7.1.10	Colli **arwyddion traddodiadol sy'n hongian**.	
7.1.11	Uno **adeiladau** drwy flaen siop estynedig nad yw'n parchu gwahaniad yr adeiladau uwchben na'r rhai cyfagos.	
7.1.12	Gall cyflwyno **gweithgarwch masnachol o fewn hen adeiladau preswyl** achosi niwed trwy gyflwyno arwyddion nad ydynt ymateb i gyfran na chynllun yr adeilad, a ffenestri siopau sy'n llethu graddfa ddomestig yr adeilad ac sy'n arwain at golli'r adeiladwaith gwreiddiol.	

	Problem	Rheoli
8.0	**Coed a Thirwedd**	
8.1	Gall **colli coed stryd, cyrion gwyrdd** a gofod sy'n rhoi seibiannau pwysig mewn ardal sydd fel arall yn un drefol galed niweidio cymeriad yr ardal yn sylweddol.	Mae lle i ragor o goed a phlanhigion eraill i wella golwg ardaloedd cadwraeth. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal.
8.2	Gall **defnyddio coed, fflora a ffawna anfrodorol** fod yn anghyson â'u hamgylchedd os cânt eu dewis heb roi sylw priodol i'w cyd-destun.	Anogir y defnydd o goed, fflora a ffawna brodorol pan fydd cynlluniau tirlunio meddal yn cael eu datblygu.
9.0	**Cyffredinol**	
9.1	Archaeoleg	Wrth ystyried unrhyw gynnig datblygu sylweddol, dylid asesu'n broffesiynol yr **effaith bosibl ar olion archaeolegol** a dylid cael cyngor ynghylch y ffordd orau o'u cadw a'u diogelu. Dylid hefyd ystyried **sut y gallai'r defnydd yn y gorffennol**, y strwythur ac adeiladau ar y safle **ddylanwadu ar ddyluniad elfennau newydd**.
9.2	Argyfwng Hinsawdd	Dylid ystyried yn ofalus **gynigion ôl-osod** i wella effeithlonrwydd ynni er mwyn sicrhau cydnawsedd â deunyddiau adeiladu traddodiadol, ymarferoldeb ac arwyddocâd. Os cynigir dymchwel adeilad, dylid ystyried y cylch carbon yn gyfan, gan ystyried carbon yr adeilad presennol. Efallai y byddai'n briodol cadw ac addasu'r adeilad presennol yn hytrach na rhoi adeilad newydd yn ei le. Dylid annog gofal ac ailddefnyddio adeiladau traddodiadol a hanesyddol yn yr ardal er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, a hynny thrwy fesurau cynnal a chadw, rheoli ac effeithlonrwydd ynni gwell.
9.3	Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth	Dylai ymgeiswyr ddarparu asesiad o'r effaith ar dreftadaeth, lle ystyrir bod cynnig yn effeithio ar yr ardal gadwraeth (naill ai o fewn y ffin neu leoliad y cynnig) neu ar ased treftadaeth yn yr ardal gadwraeth.

1.1


1.2

1.3

1.4

2.1

2.2

2.3

3.0 Ailddatblygu

3.1

3.2

3.3

3.4

3.5

3.6

3.7

3.8

3.9

4.0 Newidiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol

4.1.1

4.1.2



4.1.3

4.1.4

4.1.5

4.1.6

4.1.7

4.1.8

4.1.9

4.1.10

4.1.11

4.1.12

4.1.13

5.0 Celfi stryd, arwyddion a ffyrdd

5.1

5.2

5.3

5.4



5.5

6.0 Triniaethau ffiniau a pharcio

7.0 Dylunio Blaen Siopau

7.1.1

7.1.2

7.1.3

7.1.4

7.1.5



7.1.6

7.0 Dylunio Blaen Siopau

7.1.7


7.1.8

7.1.9

7.1.10

7.1.11

7.1.12

8.0 Coed a Thirwedd

Atodiadau

Dolenni defnyddiol

Dogfennau Polisi

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (legislation.gov.uk)

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11, Chwefror 2021 Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 11 (llyw.cymru)

Polisi Cynllunio Cymru – Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017 Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn 24, Mai 2017 (llyw.cymru)

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017 Rheoli Newid mewn Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru (llyw.cymru)

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol mewn modd Cynaliadwy yng Nghymru Egwyddorion Cadwraeth (llyw.cymru)

Ymchwil hanesyddol

British Listed Buildings, British Listed Buildings - History in Structure

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Mapiau Degwm Cymru Mapiau Degwm Cymru - Hafan (llyfrgell.cymru)

Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, Mapiau OS o wahanol ddyddiadau, Map Finder - with Marker Pin - Map Images - National Library of Scotland (nls.uk)

Ymddiriedolaeth Archaeoleg Dyfed, Prosiectau Sir Gaerfyrddin, Prosiectau – Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Adnoddau eraill

Cadw, Adnoddau cyffredinol, Cyngor a Chymorth | Cadw (llyw.cymru)

Canolfan Tywi, Hafan | Canolfan Tywi

Planning Portal, Cymru, Planning Portal, Cynllunio: Arweiniad i ddeiliaid tai, Fersiwn 3, Mai 2020 cynllunio-arweiniad-i-ddeiliaid-tai.pdf (llyw.cymru)

Rhestr termau

Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad
A4D	Cyfarwyddyd Erthygl 4	Mesur, a gychwynnir gan awdurdod lleol, lle mae materion gwaith a fyddai fel arfer yn cael eu caniatáu o dan ddeddfwriaeth gynllunio
		Gorchmynion Datblygu Cyffredinol yn cael eu dwyn o dan reolaeth yr adran gynllunio.
BAR	Adeilad Mewn Perygl	Cofrestr adeiladu, a gynhelir gan Awdurdodau lleol (a gefnogir gan Historic England) sy'n cynnwys adeiladau a strwythurau sydd mewn perygl o ddadfeilio, dymchwel neu golled arall.
		Fel arfer mae'n nodi rhywfaint o risg ac yn nodi'r math o gamau gweithredu a ystyrir yn angenrheidiol i unioni'r broblem.
CA	Ardal Gadwraeth	Ardal, a ddynodwyd gan yr awdurdod lleol, y mae ei chymeriad yn ddymunol i'w chadw neu ei gwella
CAA	Arfarniad Ardal Gadwraeth	Adroddiad sy'n asesu cymeriad ac effeithiolrwydd yr Ardal Gadwraeth ar adeg benodol
CPO	Gorchymion Prynu Gorfodol	Offeryn cyfreithiol ar gyfer prynu tir yn orfodol gan awdurdod lleol neu asiantaeth y llywodraeth ar gyfer diben ddiffiniedig ac am gyfradd deg
	Ffasgia	Y gofod ble mae arwydd yn cael ei arddangos, fel arfer uwchben siop

Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad
CCC	Cyngor Sir Caerfyrddin	
GDO	Gorchymyn Datblygu Cyffredinol	Gorchymyn, o dan ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol, sy'n nodi'r dosbarthiadau o ddatblygiadau sy'n 'ddatblygiad a ganiateir' ac felly nad oes angen caniatâd cynllunio ffurfiol arnynt fel arfer.
	Cadw	Y sefydliad sy'n gyfrifol am warchod adeiladau, strwythurau, tirweddau a safleoedd treftadaeth hanesyddol yng Nghymru
LB	Adeilad Rhestredig	Adeilad o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol a warchodir trwy ei gynnwys ar restr o adeiladau o'r fath a gynhelir gan Cadw. Bydd yr adeilad yn cael ei raddio – gradd 1 am y pwysicaf, Gradd 2* ar gyfer y pwysicaf nesaf neu radd 2 am y gweddill sy'n cynnwys tua 95% o'r cyfanswm
	Llain Tir Bwrdais	Mae llain tir bwrdais fel arfer yn cael ei nodweddu fel llain hir â wal, gardd neu iard, y tu ôl i adeilad, y mae ei flaen yn wynebu un o'r strydoedd hŷn mewn tref neu ddinas â tharddiad canoloesol

Talfyriad	Term Ffurfiol	Diffiniad
LBC	Caniatâd Adeilad Rhestredig	Cymeradwyaeth i wneud gwaith ar adeilad rhestredig (a fyddai fel arall yn drosedd) a gyhoeddwyd gan yr awdurdod lleol ac ar ôl ymgynghori â rhestr benodol o gyrff a sefydliadau amwynder cenedlaethol a lleol
LP	Cynllun Lleol	Dogfen a baratowyd gan yr awdurdod lleol neu ar ei ran sy'n nodi ei bolisi cynllunio ar gyfer cyfnod penodol sydd i ddod; bydd yn cynnwys polisi sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol, cadwraeth, priffyrdd, datblygu adeiladau ymhlith ystod eang o bynciau eraill.
PPW	Polisi Cynllunio Cymru	Polisi cenedlaethol yn amlinellu canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio
P(LBCA) Act 1990	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Deddf gydgrynhoi a ddaeth â darnau amrywiol blaenorol ynghyd o ddeddfwriaeth mewn un Ddeddf Seneddol
	Hysbysiad Atgyweirio	Hysbysiad a gyhoeddwyd o dan adrannau 47 a 48 o Ddeddf P(LBCA) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion neu feddianwyr wneud atgyweiriadau brys i adeiladau rhestredig

Talfyriad	Term Ffurfiol	Diffiniad
Sn215	Hysbysiad Adran 215	Hysbysiad o dan y deddfau cynllunio y gall awdurdod lleol ei roi i berchnogion neu ddeiliaid ar gyfer tacluso tir neu adeiladau y bernir eu bod yn niweidiol i amwynder ardal
SPG	Canllawiau Cynllunio Atodol	Dogfen sy'n nodi polisi penodol i safle neu ardal y gellir ei defnyddio fel tystiolaeth berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio perthnasol. Bydd cynnwys y ddogfen wedi'i baratoi gyda'r bwriad penodol hwn a bydd angen ei fabwysiadu'n ffurfiol fel un o'i gyfres o ddogfennau cynllunio gan yr awdurdod dan sylw
TPO	Gorchymyn Cadw Coed	Gorchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru i warchod coed penodol, grwpiau o goed neu goetiroedd er budd amwynder. Mae gorchymyn yn gwahardd torri, tocio, brigdorri, dadwreiddio, difrodi'n fwriadol a dinistrio coed yn fwriadol heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol

Mae **Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990** yn ei gwneud yn ofynnol i:

- Awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ynghylch ardaloedd lle mae'n ddymunol i'w cadw a'u gwella, a'u dynodi fel ardaloedd cadwraeth (adran 69 [1])
- Awdurdodau cynllunio lleol adolygu eu gweithgareddau blaenorol yn yr ardal hon, gan gynnwys ardaloedd cadwraeth presennol, ac i ychwanegu rhagor o ardaloedd cadwraeth (adran 69 [2])
- Awdurdodau cynllunio lleol lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella ardaloedd cadwraeth ac ymgynghori â'r cyhoedd yn yr ardal dan sylw, gan ystyried y safbwyntiau a fynegir (adran 71 [1 a 2])
- Wrth arfer swyddogaethau cynllunio awdurdodau cynllunio lleol o fewn yr ardal gadwraeth 'rhoddir sylw arbennig i'r dymunoldeb o gadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno' (adran 72 [1])

Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd o ran llesiant ar gyrff cyhoeddus, y mae'n rhaid iddynt bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u dylunio er mwyn cyfrannu cymaint â phosibl at y saith nod llesiant cenedlaethol. Un o'r nodau hyn yw Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu, a ddisgrifir fel 'cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg'. Mae synergedd clir rhwng y ddyletswydd benodol i gadw neu wella ardaloedd cadwraeth, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 1990, a'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo a diogelu treftadaeth, fel y nodir yn Neddf 2015. Gall ardaloedd cadwraeth sydd wedi'u diogelu a'u gwella'n briodol wella ansawdd bywyd a llesiant pawb .

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11, Chwefror 2021

- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys nodweddion hanesyddol unigol a elwir ar y cyd yn asedau hanesyddol. Ystyrir ardaloedd cadwraeth yn asedau hanesyddol.
- Mae paragraff 6.1.6 yn datgan bod amcanion penodol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn ceisio: […] cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, gan hefyd eu helpu i aros yn fywiog ac yn llewyrchus.
- Mae paragraff 6.1.14 yn nodi y dylid cael rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth neu eu lleoliadau. Mae angen rheolaeth gadarnhaol ar ardaloedd cadwraeth os yw eu cymeriad neu eu golwg yn cael eu cadw neu eu gwella a bod eu gwerth treftadaeth yn cael ei wireddu'n llawn. Dylai awdurdodau cynllunio sefydlu eu meini prawf eu hunain a dylid adolygu ardaloedd cadwraeth presennol a/neu newydd a'u ffiniau mewn perthynas â'r meini prawf hynny. Gall paratoi arfarniadau ardaloedd cadwraeth a chynlluniau rheoli gynorthwyo awdurdodau cynllunio i arfer eu swyddogaethau rheoli datblygu.
- Mae paragraff 6.1.1.15 yn nodi bod rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys hysbysebion, sy'n niweidio cymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol. Mewn achosion eithriadol, gellir diystyru'r rhagdybiaeth o blaid datblygu a ystyrir yn ddymunol o ran bod o fudd i'r cyhoedd.
- Mae paragraff 6.1.16 yn nodi y gellir sicrhau bod ardal gadwraeth yn cael ei chadw neu ei gwella drwy ddatblygiad sydd naill ai'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal neu'n eu gadael heb niwed. Gellir hefyd ystyried mesurau lliniaru a allai arwain at effaith niwtral neu gadarnhaol gyffredinol datblygiad arfaethedig mewn ardal gadwraeth.

- Mae paragraff 6.1.1.17 yn nodi bod dynodi ardal gadwraeth yn cyflwyno rheolaeth dros ddymchwel adeiladau nad ydynt wedi'u rhestru yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn yr ardaloedd hyn , ond nid oes angen caniatâd ardal gadwraeth i ddymchwel yn rhannol . Yn y bôn, mae'r gweithdrefnau yr un fath ag ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig. Wrth ystyried cais am ganiatâd ardal gadwraeth, dylid ystyried effeithiau ehangach dymchwel ar amgylchoedd yr adeilad ac ar ddiddordeb pensaernïol, archeolegol neu hanesyddol yr ardal gadwraeth gyfan. Dylid hefyd ystyried strwythurau newydd. Dylid profi cynigion yn erbyn arfarniadau ardal gadwraeth, lle maent ar gael.
- Mae paragraff 6.1.29 yn nodi y dylai cynlluniau datblygu ystyried cynnwys polisïau penodol lleol sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol. Mae'n rhaid i'r rhain fod yn unigryw gan gwmpasu'r elfennau hynny yr ystyrir eu bod yn ystyriaethau pwysig o safbwynt cynllunio lleol yn unig. Gallant gynnwys polisïau penodol lleol sy'n ymwneud â:
- Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth – gall cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n ymwneud yn benodol â'r ardal leol ar gyfer gwarchod yr amgylchedd hanesyddol adeiledig, gan gynnwys gwarchod neu wella adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth a'u lleoliadau. Gallant hefyd gynnwys polisïau sy'n ymwneud ag ailddefnyddio neu ddatblygiad newydd sy'n effeithio ar ardaloedd a/neu adeiladau hanesyddol penodol, a allai gynorthwyo i sicrhau adfywio trefol a gwledig. Ni ddylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau ar gyfer dynodi ardaloedd cadwraeth newydd nac estyniadau i ardaloedd cadwraeth presennol, ac ni ddylent gynnwys datganiadau neu gynigion manwl ar gyfer ardaloedd cadwraeth presennol. Dylid dilyn y broses asesu, diffinio manwl neu adolygu ffiniau a llunio cynigion ar gyfer ardaloedd cadwraeth unigol ar wahân i'r cynllun datblygu.
- Mae paragraff 1.36 yn nodi bod gan Weinidogion Llywodraeth Cymru bwerau wrth gefn i wneud eu Gorchmynion Dirymu/Addasu neu Derfynu eu hunain, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio. Byddai ymyrraeth o'r fath yn gwrthdroi dyfarniad awdurdod cynllunio ar fater sydd, yn y lle cyntaf, yn gyfrifoldeb iddo ac y gellir ei gyfiawnhau mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Yr egwyddor gyffredinol yw y dylid ystyried camau o'r fath dim ond pan fernir bod y penderfyniad gwreiddiol yn hynod anghywir, fel y byddai niwed yn cael ei wneud er budd ehangach y cyhoedd. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i ddefnydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru o bwerau diofyn mewn perthynas ag adeiladau rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth.

Polisi Cynllunio Cymru – Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Mae'r ddogfen hon yn nodi:

Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am ddynodi ardaloedd cadwraeth ac maent yn cadw'r wybodaeth ddiffiniol am eu ffiniau.

- Gall Awdurdod Cynllunio Lleol ddatblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol i'w gynorthwyo i gyflawni polisïau yn y cynllun datblygu lleol. Gallai canllawiau penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol gynnwys pynciau fel: Cynlluniau rheoli ardaloedd cadwraeth.
- Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol nodi ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y dymunir cadw neu wella eu cymeriad neu eu golwg a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth. Dylent adolygu eu hardaloedd o bryd i'w gilydd i ystyried a oes galw am ddynodiadau neu ddiwygiadau pellach. Hefyd mae gan Weinidogion Llywodraeth Cymru bwerau i ddynodi ardaloedd cadwraeth ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol. Mae hwn yn bŵer a gadwyd yn ôl ac a ddefnyddir mewn achosion eithriadol, er enghraifft, lle mae ardal o fwy na diddordeb lleol yn unig.

6.2 Mae dynodi ardal gadwraeth yn darparu sail ar gyfer polisïau sydd wedi'u cynllunio i warchod neu wella pob agwedd ar gymeriad neu olwg sy'n diffinio diddordeb arbennig ardal : gallai hyn gynnwys patrwm yr anheddiad a threfn y gofod a'r llwybrau yn ogystal ag arddull a math yr adeilad, a'r defnydd o ddeunyddiau a manylion. Gall seilwaith gwyrdd hefyd fod yn bwysig, ond nid yw dynodi ardal gadwraeth yn debygol o fod yn ffordd briodol o ddiogelu nodweddion y dirwedd, ac eithrio pan fyddant yn ffurfio rhan annatod o'r amgylchedd adeiledig hanesyddol.

6.3 Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol lunio a chyhoeddi cynigion o bryd i'w gilydd ar gyfer cadw a gwella ardaloedd cadwraeth mewn cynllun rheoli. Yn unol â'r arferion gorau, dylai hyn fod rhwng pob pump a deng mlynedd. Mae'n arfer da i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu'r cynllun rheoli fel canllawiau cynllunio atodol. Rhaid iddynt hefyd roi sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod neu wella ardaloedd cadwraeth wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Mewn amgylchiadau eithriadol lle nad oes gan ardal gadwraeth gyfan neu ran ohoni ddiddordeb arbennig mwyach a arweiniodd at ei dynodiad, gellir newid y dynodiad neu ei ganslo.

6.4 Arfarniad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer unrhyw gynigion o ran cadwraeth a gwella. Mae'n rhoi darlun manwl o ddiddordeb arbennig ardal ac yn nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a all fod yn sail i gynllun rheoli manylach. Dylai gynnwys dadansoddiad o bolisi ac anghenion rheoli'r ardal, gan gynnwys asesiad o effeithiolrwydd y rheolaethau cynllunio presennol, yr angen am amddiffyniad ychwanegol a nodi ffyrdd y gellir cadw neu wella cymeriad arbennig. Bydd gan bolisïau cynllun datblygu lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu sy'n ymwneud ag ardaloedd cadwraeth sylfaen fwy cadarn a byddant yn gwneud cyfraniadau mwy cadarnhaol at nodau hirdymor os diffinnir cymeriad pob ardal gadwraeth a nodir polisïau ar gyfer ei chadw a'i gwella mewn modd manwl mewn cynllun rheoli. Gellir ystyried hefyd a ddylid cyflwyno Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn yr ardaloedd hyn.

6.5 Oherwydd eu natur mae gan ardaloedd cadwraeth nifer o randdeiliaid a dylai trefniadau rheoli ddarparu cyfleoedd i gyfranogi ac i ymgysylltu â'r gwaith o lunio cynllun a gwneud penderfyniadau. Bydd cynigion ar gyfer cadwraeth a gwella hefyd fwyaf effeithiol pan fydd pob adran o'r cyngor yn deall arwyddocâd dynodiad ac yn gweithio gyda'i gilydd. Argymhellir yn glir felly ddefnyddio dull datblygu fel tîm sy'n
cydnabod cyfraniad adrannau eraill, fel priffyrdd a thai.

6.6 Gall cynlluniau datblygu lleol gynnwys polisïau lleol penodol ar gyfer gwarchod neu wella ardaloedd cadwraeth. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r cynllun datblygu lleol egluro y bydd cynigion datblygu yn cael eu barnu mewn perthynas â'u heffaith ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth fel y nodir yn y ddogfen arfarnu a rheoli . Bydd rhai cynigion datblygu o fewn ardal gadwraeth, gan gynnwys darparu un neu fwy o dai annedd, darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr a grëir gan y datblygiad yn 100 metr sgwâr neu fwy, yn gofyn am ddatganiad dylunio a mynediad.

6.7 Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys canolfannau masnachol trefi a phentrefi. Yn gyffredinol, bydd pwyslais ar reoli newid cadarnhaol a phenodol sy’n annog bywiogrwydd economaidd a phrysurdeb cymdeithasol a diwylliannol ac yn cyd-fynd â nodweddion pensaernïol a hanesyddol arbennig yr ardal. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys safleoedd neu adeiladau nad ydynt yn gwneud unrhyw gyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg yr ardal; dylai'r hyn sy'n dod yn eu lle ysgogi dylunio dychmygus, o ansawdd uchel a dylai fod yn gyfle i wella'r ardal.

6.8 Un o ddibenion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion yn yr awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at olwg yr amgylchedd. Mae'n rhesymol disgwyl y bydd dyletswydd yr awdurdod cynllunio lleol i roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth yn arwain, yn ymarferol, at safonau mwy manwl pan fydd yr awdurdod yn ystyried a ddylid rhoi caniatâd i hysbyseb arfaethedig mewn ardal o'r fath.

6.9 Mewn ardaloedd cadwraeth, mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio lleol yn hyblyg wrth iddynt ddefnyddio eu pwerau o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, oherwydd mae llawer o ardaloedd yn cynnwys safleoedd manwerthu a masnachol sy'n amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol ffyniannus. Mae hysbysebu yn yr awyr agored yn hanfodol i weithgarwch masnachol a bydd llwyddiant busnesau lleol fel arfer yn helpu perchnogion a thenantiaid safleoedd masnachol i gadw adeiladau mewn cyflwr da ac yn ddeniadol o ran golwg.

6.10 Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth i ddymchwel adeilad heb ei restru mewn ardal gadwraeth, er bod rhai eithriadau. Yn y cyd-destun hwn, mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod dymchwel yn gyfystyr â thynnu adeilad i lawr fel ei fod yn cael ei ddinistrio'n llwyr neu o leiaf i raddau sylweddol iawn. Felly, gallai cael gwared ar adeilad cyfan ac eithrio ei ffasâd hefyd gyfrif fel dymchwel.

6.11 Gall Gweinidogion Llywodraeth Cymru gyfarwyddo nad oes angen Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer rhai disgrifiadau o adeiladau ac mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo nad oes angen caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer rhai mathau o waith. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys dymchwel adeilad sydd â chyfanswm ei gynnwys ciwbig heb fod yn fwy na 115 metr ciwbig a dymchwel nodwedd ffin adeiledig sy'n llai nag un metr o uchder lle mae'n ffinio â phriffordd, dyfrffordd neu fan agored, neu lai na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall. Mae hyn yn golygu na fydd llawer o waith sy'n cynnwys dinistrio adeiladwaith rhan o adeilad yn waith dymchwel ac ni fydd angen cael caniatâd ardal gadwraeth .

6.12 Rhaid gwneud ceisiadau am ganiatâd i ddymchwel i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd angen datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ar geisiadau am Ganiatâd Ardal Gadwraeth, a ddylai esbonio pam mae dymchwel yn ddymunol neu'n angenrheidiol ochr yn ochr ag asesiad ehangach o effaith y cynigion ar gymeriad neu olwg yr ardal.

6.13 Dylai rhagdybiaeth gyffredinol fod o blaid cadw adeiladau, sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth. Dylid asesu cynigion i ddymchwel adeiladau o'r fath mewn perthynas â'r un meini prawf eang â chynigion i ddymchwel adeiladau rhestredig (gweler 5.15). Mewn achosion lle ystyrir nad yw adeilad yn gwneud fawr ddim cyfraniad, neu ddim cyfraniad, fel arfer bydd angen i'r awdurdod cynllunio lleol gael gwybodaeth lawn am yr hyn a gynigir ar gyfer y safle ar ôl ei ddymchwel. Ni ddylid rhoi caniatâd ar gyfer dymchwel heb gynlluniau derbyniol a manwl ar gyfer ailddefnyddio'r safle oni bai bod ailddatblygu yn annewisol. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol hawl i ystyried egwyddorion eang datblygiad arfaethedig, megis ei raddfa, ei faint, ei fàs, wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer dymchwel adeilad heb ei restru mewn ardal gadwraeth.

6.14 Efallai y byddai'n briodol gosod amod ar roi caniatâd i ddymchwel fel na fydd hyn yn digwydd nes bod caniatâd cynllunio llawn wedi'i roi a bod contract ar gyfer gwneud y gwaith datblygu wedi'i lunio.

6.15 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol y pŵer i ddiogelu coed a choetiroedd drwy wneud gorchmynion diogelu coed. Yn ogystal, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn destun gorchmynion diogelu coed. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n bwriadu torri, brigdorri neu docio coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu a ddylid diogelu'r goeden honno gyda gorchymyn cadw coed.

6.16 Wrth ystyried a ddylid diogelu coed mewn ardaloedd cadwraeth, dylai awdurdodau cynllunio lleol bob amser ystyried cyfraniad gweledol, hanesyddol coed a'u dymunoldeb. Mewn rhai achosion, efallai y byddai plannu o'r newydd neu ailblannu'n ddymunol lle byddai hyn yn gyson â chymeriad neu olwg yr ardal.

6.17 Mae gan waith orfodaeth rôl allweddol i'w chwarae o ran amddiffyn ardaloedd cadwraeth a dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried dull mwy rhagweithiol, gan gynnwys monitro gweithgarwch datblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau rheolaethau rheoleiddio, yn hytrach nag ymchwilio pan wneir cwyn ffurfiol yn unig. Bydd dull cadarnhaol a gweithredol o ran gorfodi yn helpu i leihau nifer y tramgwyddau ac yn sicrhau gwelliannau parhaus o ran ansawdd amgylcheddol.

6.18 Mae gan ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol neu fethiant i wneud penderfyniad gan yr awdurdod cynllunio lleol ar ganiatâd ardal gadwraeth. Gellir gwneud apêl mewn rhai amgylchiadau gan gynnwys y canlynol: Lle mae awdurdod cynllunio lleol yn: Gwrthod cais am ganiatâd ardal gadwraeth; Dyfarnu cais am ganiatâd ardal gadwraeth yn amodol ar amodau; Gwrthod cais am amrywio neu ryddhau amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd ardal gadwraeth; Gwrthod cais am gymeradwyaeth sy'n ofynnol gan amod a osodwyd ar roi caniatâd ardal gadwraeth; neu'n methu â phenderfynu ynghylch cais am ganiatâd o fewn 8 wythnos ar ôl i'r awdurdod cynllunio lleol ei ddilysu.

6.19 Gwneir apêl i Weinidogion Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio ffurflen o fewn chwe mis ar ôl i'r ymgeisydd gael ei hysbysu am benderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol.

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn nodi'r cyd-destun mewn perthynas â'r polisi a dyletswyddau awdurdodau cynllunio lleol i ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol ar arferion da ar gyfer eu dynodi a'u harfarnu, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisïau lleol ar gyfer rheoli a gwella cadarnhaol fel bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu cadw a'u gwella. Dylai hefyd helpu awdurdodau cynllunio lleol i ystyried Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru yn Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth) er mwyn sicrhau newid sensitif o ansawdd uchel.

Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants